Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Cynllun Pensiwn yr Aelodau:** Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25

Gorffennaf 2025



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Cynllun Pensiwn yr Aelodau:** Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25

Gorffennaf 2025



# Cynnwys

**Ymddiriedolwyr a chynghorwyr** ..... 6

**Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 i Gynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd** ..... 9

**Datblygiad ariannol y Cynllun** ..... 15

**Adolygiad actiwaraidd** ..... 17

**Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr am y Datganiadau Ariannol** ..... 28

**Datganiad Llywodraethu** ..... 30

**Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd** ..... 35

**Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025** ..... 40

**Nodiadau i gyd-fynd â'r Cyfrifon** ..... 42

**Datganiad yr Archwilydd Annibynnol am Gyfraniadau i Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd** ..... 56

**Datganiad yr Actiwari - yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2025** ..... 58

# Ymddiriedolwyr a chynghorwyr

Cadarnhaodd y Bwrdd Taliadau fel rhan o'i Benderfyniad ar gyfer y Bumed Senedd, yn unol â Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013, y dylid sefydlu Bwrdd Pensiynau newydd. O 6 Mai 2016 ymlaen, yn unol ag adran 5 o reolau'r Cynllun a ddaeth i rym o'r dyddiad hwnnw ymlaen, penodwyd Bwrdd Pensiynau yn lle Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.

Caiff pob penodiad i'r Bwrdd Pensiynau ei wneud gan y Bwrdd Taliadau. Mae'r Cadeirydd yn Ymddiriedolwr Annibynnol proffesiynol achrededig. Bydd dau Ymddiriedolwr yn cael eu henwebu gan Aelodau presennol a blaenorol o'r Senedd, a dau arall yn cael eu penodi gan Gomisiwn y Senedd. Penodir aelodau'r Bwrdd am gyfnod o bedair blynedd, ond i gadw Ymddiriedolwyr profiadol ar y Bwrdd, gellir estyn y tymor am bedair blynedd arall. Caiff y Bwrdd Taliadau ddiswyddo unrhyw Ymddiriedolwr. Gall Ymddiriedolwr ymddiswyddo drwy ysgrifennu at Glerc y Bwrdd Taliadau. Mae cyfansoddiad y Bwrdd Pensiynau ar gyfer 2024-25 isod:

| Rôl | Enw | Dyddiad penodi | Ymddiswyddo |
|---|---|---|---|
| **Ymddiriedolwr Annibynnol (Cadeirydd)** | Jill Youds | 6 Mai 2016 | 31 Mawrth 2024 |
| **Ymddiriedolwr Annibynnol Interim (Cadeirydd)** | Dalriada Trustees Ltd | 18 Mehefin 2024 | |
| **Ymddiriedolwr Annibynnol (Cadeirydd)** | Dalriada Trustees Ltd | 1 Ionawr 2025 | |
| **Ymddiriedolwr** | Mike Hedges AS[1] | 6 Mai 2016 | |
| **Ymddiriedolwr** | Ken Skates AS | 11 Ionawr 2023 | 14 Mai 2024 |
| **Ymddiriedolwr** | Hefin David | 22 Mai 2024 | |
| **Ymddiriedolwr** | Nick Ramsay | 6 Mai 2021 | |
| **Ymddiriedolwr** | Robert Evans | 20 Rhagfyr 2018 | |

Yn dilyn ymddiswyddiad Jill Youds, cynhaliwyd ymarfer recriwtio ar gyfer Cadeirydd Ymddiriedolwyr newydd. Penodwyd Dalriada Trustees Ltd yn Gadeirydd dros dro ym mis Mehefin 2024, ac yn dilyn ymarfer recriwtio penodwyd Dalriada Trustees Ltd am dymor o bedair blynedd o 1 Ionawr 2025. Croesawodd y Bwrdd Gregor Law, a benodwyd drwy Dalriada Trustees, i rôl y Cadeirydd.

[1] Bu Mike Hedges yn gwasanaethu ar y Bwrdd Ymddiriedolwyr blaenorol ers 12 Hydref 2011, ac mae wedi gwasanaethu fel Ymddiriedolwr a Enwebwyd gan yr Aelodau ers 2016. [1]

Ar ôl pob tymor o bedair blynedd cynhelir etholiad ar gyfer Ymddiriedolwr a Enwebwyd gan yr Aelodau i roi cyfle i aelod arall o'r Cynllun ymgymryd â'r rôl. Gan fod disgwyl i dymor Nick ddod i ben ar 6 Mai 2025, cynhaliwyd etholiad ar gyfer Ymddiriedolwr a Enwebwyd gan yr Aelodau. Nick Ramsay gafodd y nifer fwyaf o bleidleisiau, a chymeradwyodd y Bwrdd Taliadau y penodiad yn ffurfiol, ac felly, bydd Nick yn parhau fel Ymddiriedolwr a Enwebwyd gan yr Aelodau am dymor pellach o bedair blynedd.

## Gweinyddu'r Cynllun

Ym mis Gorffennaf 2024 penododd Comisiwn y Senedd Broadstone yn weinyddwyr y Cynllun Pensiwn am gyfnod cychwynnol o bum mlynedd gyda'r opsiwn i ymestyn am bum mlynedd pellach. Yn dilyn y penodiad, mae'r Ysgrifenyddiaeth yn gweithio'n agos gyda Broadstone i reoli'r broses bontio. Mae Broadstone yn gyfrifol am gynnal cofnodion cywir am yr aelodau ac am gyfrifo buddion yr Aelodau. Fodd bynnag, yr Ysgrifenyddiaeth fydd y pwynt cyswllt cyntaf i'r Aelodau o hyd.

Ysgrifenyddiaeth y Cynllun sy'n rheoli'r Cynllun o ddydd i ddydd fel rhan o Dîm Gwasanaethau Ariannol Comisiwn y Senedd. Dylid anfon unrhyw ymholiadau am bensiynau'r Aelodau, neu gais am unrhyw wybodaeth ychwanegol at yr Ysgrifenyddiaeth yn y cyfeiriad a ganlyn:

**Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd,**
**Gwasanaethau Ariannol, Senedd Cymru, Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1SN**

Ar y dyddiad y cymeradwywyd yr adroddiad blynyddol, Gweinyddwyr y Cynllun oedd:

**Broadstone Corporate Services, 23-25 St George's Road, Bristol BS1 5UU**

Cynghorwyr y Cynllun a benodwyd gan yr Ymddiriedolwyr fel ar 31 Mawrth 2025

| | |
|---|---|
| **Actiwari** | Actiwari'r Llywodraeth |
| **Archwilydd** | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| **Bancwyr** | Barclays Bank plc |
| **Rheolwyr Buddsoddi** | Baillie Gifford<br>Legal & General ("L&G")<br>Partners Group<br>BNY Mellon Investment Management ("BNYM")<br>M&G Investments UK<br>Insight Investment |
| **Cynghorydd Cyfreithiol** | Eversheds Sutherland LLP |
| **Cyfrifwyr y Cynllun** | Ysgrifenyddiaeth y Cynllun, Comisiwn y Senedd |
| **Cynghorydd Buddsoddi** | Quantum Advisory |

# Adroddiad yr Ymddiriedolwyr am y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 i Gynllun Pensiwn Aelodau o’r Senedd

## Cefndir Deddfwriaethol Cynllun Pensiwn Aelodau o’r Senedd (y “Cynllun”)

Mae Senedd Cymru (y “Senedd”) yn darparu cynllun buddion diffiniedig, a lywodraethir gan adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Adran 20(4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac Atodlen 11 i’r Ddeddf honno yn rhoi dilyniant i’r Cynllun. Nid yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi effeithio ar statws cyfreithiol y Cynllun.

Mae’r Cynllun yn darparu buddion ar gyfer Aelodau o’r Senedd (“yr Aelodau”) a Deiliaid Swyddi. Mae pob Aelod o’r Senedd yn aelod o’r Cynllun o’r dyddiad y mae’n ymuno â’r Senedd, oni bai ei fod yn dewis peidio â gwneud hynny.

Cyflwynwyd Cynllun Pensiwn Cyfartaledd Gyrfa (CARE) ar 6 Mai 2016. Cafodd aelodau a oedd yn 55 oed neu'n hŷn ar 1 Ebrill 2012 'Ddiogelwch Trosiannol’ ac maent wedi parhau i gael eu buddion wedi'u cyfrifo ar sail cyflog terfynol am bum mlynedd ychwanegol tan 6 Mai 2021.

Ym mis Rhagfyr 2018, dyfarnodd y Llys Apêl fod y 'diogelwch trosiannol’ a gynigiwyd i rai aelodau o gynlluniau'r barnwyr a'r diffoddwyr tân wedi arwain at wahaniaethu anghyfreithlon. Ar 15 Gorffennaf 2019, gwnaeth Prif Ysgrifennydd y Trysorlys ddatganiad gweinidogol ysgrifenedig yn cadarnhau, gan fod 'diogelwch trosiannol’ yn cael ei gynnig i aelodau o holl brif gynlluniau pensiwn y gwasanaethau cyhoeddus, fod angen dileu’r darpariaethau a oedd yn arwain at wahaniaeth o ran triniaeth o'r holl gynlluniau ar gyfer aelodau a oedd wedi cyflawni’r cyfnod perthnasol o wasanaeth.

Mae Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd yn gyfrifol am reolau Cynllun Pensiwn yr Aelodau. Ar ôl ystyried barn y Bwrdd Pensiynau, cytunodd y Bwrdd y dylid mabwysiadu rhwymedi i gael gwared ar y gwahaniaethu yn rheolau Cynllun Pensiwn yr Aelodau o ganlyniad i'r darpariaethau diogelwch trosiannol sydd ynddynt. Yn 2021, ymgynghorodd y Bwrdd â'r Aelodau yr effeithir arnynt a Chomisiwn y Senedd ar rwymedi arfaethedig. Mae’r Aelodau yr effeithir arnynt wedi cael cynnig dewis ar unwaith i aros yn y Cynllun CARE neu ddychwelyd i'r adran Cyflog Terfynol am y cyfnod Unioni (6 Mai 2016 – 6 Mai 2021).

Mae gan y Bwrdd Pensiynau gyfres o amcanion cyllido ac mae actiwari'r Cynllun yn cynnal prisiad cyllid tair blynedd sy'n anelu at fonitro lefelau cyllido a rheoli costau'r Cynllun.

Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd llawn ohono yn ôl ei sefyllfa ar 31 Mawrth 2023. Ar ôl cwblhau'r prisiad sy'n effeithiol o 1 Ebrill 2024, gostyngodd cyfradd cyfraniad y cyflogwr sy'n daladwy gan y Senedd o 19.9% i 18% o gyflogau cyfanredol yr Aelodau. Roedd hyn yn adlewyrchu gwelliannau yn lefel ariannu'r cynllun a newidiadau yn rhagolygon y farchnad. Cyfradd cyfraniad yr Aelodau yw 10.5% o'u cyflog.

Bydd y prisiad actiwaraidd nesaf ar 31 Mawrth 2026.

Dyma brif nodweddion y Cynllun:

- Bob blwyddyn, bydd yr Aelodau'n cronni pensiwn sy'n cyfateb i un rhan o 50 o'u cyflog am y flwyddyn honno.
- Caiff y pensiwn a gronnir bob blwyddyn ei ailbrisio yn unol â Gorchmynion y Trysorlys a wneir o dan Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013, a hynny'n unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) ar hyn o bryd.
- Mae buddion a gronnir yn y Cynllun Cyflog Terfynol yn cael eu diogelu'n llawn, ac yn parhau i fod yn gysylltiedig ag unrhyw gynnydd yn y dyfodol mewn cyflogau.
- Mae Deiliaid Swyddi yn ennill pensiwn CARE ychwanegol ar gyfer Deiliaid Swyddi, sef un rhan o 50 o'r cyflog y maent yn ei ennill bob blwyddyn fel Deiliaid Swyddi.
- Caiff yr Oedran Ymddeol Arferol ei gysylltu ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (neu 65 oed, pa un bynnag sydd uchaf). Bydd unrhyw bensiwn Cyflog Terfynol a gronnir cyn 7 Mai 2021 yn parhau i fod yn daladwy ar oedran ymddeol arferol o 65 oed.
- Caiff pensiynau sy'n cael eu talu eu mynegrifo i'r newidiadau yn y Gorchymyn Cynyddu Pensiynau (Adolygu).
- Cyfandaliad marwolaeth mewn gwasanaeth cyfwerth â chyflog o ddwy flynedd ynghyd â darpariaeth ar gyfer mwy nag un enwebai.

## Trosglwyddiadau

Caiff gwerth yr holl symiau a drosglwyddir i gynlluniau pensiwn eraill eu cyfrifo a'u gwirio gan Actiwari'r Cynllun yn unol â'r gofynion statudol. Ni wnaed unrhyw drosglwyddiadau allan o'r Gronfa yn ystod y flwyddyn.

## Datblygiadau yn ystod y flwyddyn

Cadeirydd y Bwrdd yw Gregor Law o Dalriada Trustees Ltd sy'n ymddiriedolwr proffesiynol annibynnol achrededig.

Ers mis Chwefror 2025, mae'r gyflogres pensiynwyr wedi cael ei weithredu gan Midland HR, darparwr cyflogres newydd y Comisiwn.

Yn ystod y flwyddyn, darparodd Quantum Advisory hyfforddiant ar egwyddorion seiberddiogelwch ar gyfer cynlluniau pensiwn. Darparodd actiwari'r Cynllun ddadansoddiad a hyfforddiant ar effaith bosibl diwygio'r Senedd ar y Cynllun. Rhoddodd cynghorydd cyfreithiol y Cynllun y wybodaeth ddiweddaraf am ddangosfyrddau pensiynau, llywodraethu buddsoddiadau, y cynnydd i'r oedran pensiwn isaf arferol, y Bil Cynlluniau Pensiwn ac adolygiad pensiynau'r Llywodraeth. Cafodd y Bwrdd hyfforddiant gloywi hefyd ar rolau a chyfrifoldebau'r partïon sy'n ymwneud â rhedeg y Cynllun a'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth sydd ar waith rhwng y Bwrdd, y Comisiwn a'r Bwrdd Taliadau ac ar wrthdaro buddiannau a'r Weithred Indemniad.

Yn 2019, gosododd y Bwrdd bolisi i leihau buddsoddiadau'r Cynllun yn y sector olew a nwy i sero dros gyfnod pum mlynedd yn amodol ar argaeledd cyfryngau buddsoddi addas o ystyried maint y Cynllun dros y cyfnod hwnnw. Ers 2019, mae'r Bwrdd wedi gweithio gyda'u hymgynghorwyr i leihau amlygiad y Cynllun i'r sector olew a nwy o tua 3.4% yn 2018 i tua 1.1% yn 2024.

Cytunwyd, gan fod diwedd y cyfnod pum mlynedd cychwynnol yn agosáu, y byddai'r agwedd hon ar bolisi Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu'r Cynllun yn cael ei hadolygu ochr yn ochr â'r adolygiad strategaeth ehangach o fuddsoddiadau'r Cynllun. Byddai hyn yn rhoi cyfle i'r Bwrdd ystyried datblygiadau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu ehangach yn y farchnad fuddsoddi a chaniatáu iddynt gryfhau dull y Cynllun o fonitro rhinweddau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu eu rheolwyr a'u cronfeydd.

Cyflawnodd y Bwrdd hyfforddiant ffurfiol ar faterion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu ym mis Mehefin 2024, a chytunodd ar nifer o fetrigau i fesur y Cynllun yn eu herbyn yn flynyddol. Mae'r metrigau hyn yn edrych yn ôl ac ymlaen.

Byddant yn cynorthwyo’r Bwrdd Pensiynau i fonitro perfformiad Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu asedau'r Cynllun ochr yn ochr ag enillion absoliwt y portffolio.

Mae’r Bwrdd Pensiynau yn adolygu strategaeth fuddsoddi'r Cynllun yn ffurfiol bob tair blynedd, yn dilyn y prisiad actiwaraidd, ac mae’r adolygiad hwn bellach wedi dod i ben. Cyflwynodd Quantum Advisory ei lythyr cyngor ffurfiol i'r Bwrdd ym mis Ionawr 2025 ac mae'r newid i'r strategaeth newydd bellach wedi'i gwblhau (gyda chyfran olaf y newid yn digwydd ym mis Ebrill 2025 ar ôl diwedd blwyddyn y Cynllun).

Mae’r strategaeth newydd yn targedu enillion buddsoddi ychydig yn uwch na’r strategaeth flaenorol, sy’n cefnogi’r rhagdybiaethau prisio actiwaraidd (yn nodi bod y Cynllun yn parhau i fod dros ben ar sail y prisiad presennol). Fodd bynnag, mae gan y strategaeth newydd broffil risg ychydig yn is o’i gymharu â’r strategaeth flaenorol (fel y’i mesurir gan y Gwerth mewn Perygl).

Mae’r rheolwyr a’r cronfeydd a ddefnyddiwyd i weithredu’r strategaeth newydd yn cynnig ffocws cryfach ar faterion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu a gostyngiad sylweddol arall yng nghysylltiad yr asedau â’r sector olew a nwy.

Ni ddisgwylir i’r newid gael effaith sylweddol ar lefel yr enillion disgwyliedig hirdymor sy'n gysylltiedig â strategaeth fuddsoddi’r Cynllun, nac effeithio ar allu'r Cynllun i dargedu'r lefel ofynnol o enillion buddsoddi yn yr hirdymor fel sy’n ofynnol gan ragdybiaethau’r prisiad actiwaraidd.

Mae’r Bwrdd Pensiynau yn ymwybodol y gall enillion buddsoddi fod yn anwadal yn y byrdymor, yn enwedig lle y mae rhai sectorau wedi’u heithrio o’r portffolio. Felly, bydd yn parhau i adolygu’n rheolaidd enillion y strategaeth gyffredinol, a’r cronfeydd unigol ac yn trafod addasiadau gofynnol â’i gynghorwyr buddsoddi.

Mae'r Bwrdd yn adolygu cymwysterau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu ei reolwyr yn flynyddol, ac yn holi ei gynghorwyr am y materion hyn ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd Pensiynau.

Rhaid i’r Bwrdd gydbwyso nodweddion risg ac enillion buddsoddi’r Cynllun ochr yn ochr â’i bryderon Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu, ac â’i ddyletswydd i sicrhau bod digon o arian yn y Cynllun i dalu’r buddion a addawyd i aelodau.

Bydd y Bwrdd yn parhau i weithio gyda'r cynghorwyr buddsoddi i adolygu’r ymagwedd at faterion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu ac amlygiad y portffolio i'r sector olew a nwy.

Bob blwyddyn, mae’r Bwrdd yn asesu a oes gan yr Ymddiriedolwyr y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu rôl ac i fodloni gofynion y Rheoleiddiwr Pensiynau a Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013. Cynhyrchir cynllun hyfforddi i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau o ran sgiliau. Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd yn herio eu hunain ynglŷn â pha mor effeithiol y maent yn gweithredu fel bwrdd ac yn ceisio mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n amharu ar berfformiad da. Roedd un Ymddiriedolwr nad oedd yn gallu mynd i un o'r sesiynau hyfforddi oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth. Lle bo modd, gwneir trefniadau eraill.

Mae'r Bwrdd yn parhau i adolygu perfformiad ei holl gynghorwyr yn flynyddol yn erbyn yr amcanion y mae'r Bwrdd wedi'u pennu ar eu cyfer ac i adolygu'r amcanion hyn o leiaf bob tair blynedd neu yn dilyn unrhyw newid sylweddol mewn polisi buddsoddi.

## Rheoli'r Cynllun

Ceir rhestr o'r Ymddiriedolwyr a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn ar dudalen 6.

## Cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr

Fel arfer cynhelir cyfarfodydd ymddiriedolwyr deirgwaith y flwyddyn ac weithiau cynhelir cyfarfodydd ychwanegol at ddibenion penodol. Cyfarfu'r Ymddiriedolwyr bedair gwaith yn ystod y flwyddyn, a oedd yn cynnwys cyfarfod ychwanegol a gynhaliwyd ym mis Mehefin i drafod yr adolygiad o'r strategaeth fuddsoddi. Nid oedd un Ymddiriedolwr yn gallu mynd i un o'r pedwar cyfarfod oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w reolaeth. Gwneir trefniadau eraill i sicrhau bod yr Ymddiriedolwyr sy'n methu cyfarfodydd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf.

Caiff yr Ymddiriedolwyr weithredu yn ôl penderfyniad y mwyafrif sy'n bresennol mewn unrhyw gyfarfod o'r Ymddiriedolwyr lle ceir cworwm. Mae angen tri i gael cworwm mewn unrhyw gyfarfod o'r Ymddiriedolwyr, ac mae hynny'n cynnwys y Cadeirydd Annibynnol.

## Datrys Anghydfodau Mewnol

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi rhoi gweithdrefn Datrys Anghydfodau Mewnol ar waith yn unol â gofynion Deddf Pensiynau 1995. Mae manylion am y weithdrefn ar gael gan Ysgrifenyddiaeth y Cynllun.

# Datblygiad ariannol y Cynllun

## Paratoi ac Archwilio'r Cyfrifon Blynyddol

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gofyniad i gael Cyfrifon Archwiliedig a Datganiad gan yr Archwilydd) 1996, Safon Adrodd Ariannol 102, sef y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon, a'r canllawiau a nodir yn y Datganiad o Arfer a Argymhellir (diwygiwyd yn 2018).

Caiff y cyfrifon hyn eu paratoi gan swyddogion y Senedd, ar ran yr Ymddiriedolwyr, a'u harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Cânt eu paratoi a'u harchwilio o dan Adrannau 41(1) a (6) o Ddeddf Pensiynau 1995 ac yn unol â'r Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gofyniad i dderbyn Cyfrifon Archwiliedig a Datganiad gan yr Archwilydd) OS 1996/1975.

Mae copïau o'r cyfrifon hyn ar gael gan yr Ysgrifenyddiaeth ar gais ac maent ar gael ar wefan **Senedd Cymru**[2].

## Crynodeb o'r wybodaeth ariannol

Mae'r tabl isod yn dangos yr incwm a'r gwariant yn ystod y cyfnod ar gyfer 2024-25 a ffigurau cymharol ar gyfer 2023-24 a'r sefyllfa asedau net. Yn ystod y cyfnod, talwyd swm o £110,000 i'r Gronfa Arian Parod. Cyfanswm gwerth y Cronfeydd a fuddsoddwyd ar y farchnad ar 31 Mawrth 2025 oedd £48,434,326 (31 Mawrth 2023 £46,993,505).

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 £ | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 £ |
|---|---|---|
| **Incwm sy'n gysylltiedig ag Aelodau** | 1,458,230 | 1,589,713 |
| **Taliadau sy'n gysylltiedig ag Aelodau** | (1,477,858) | (1,707,928) |
| **Ychwanegiadau net o drafodion ag Aelodau** | (19,628) | (118,215) |
| **Adenillion net ar fuddsoddiadau** | 1,350,822 | 4,403,097 |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net yn y gronfa** | 1,331,194 | 4,284,882 |
| **Asedau net ar ddechrau'r flwyddyn** | 47,086,046 | 42,801,164 |

[2] https://senedd.cymru/sut-rydym-yn-gweithio/ynghylch-aelodau-o-r-senedd/cynllun-pensiwn-aelodau-o-r-senedd-y-cynllun/

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 £ | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 £ |
|---|---|---|
| **Asedau net ar ddiwedd y flwyddyn** | 48,417,240 | 47,086,046 |

# Adolygiad actiwaraidd

## Datganiad yr Actiwari yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2025

Mae Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd wedi'i eithrio o'r gofyniad a nodir yn Rheoliadau Cynlluniau Pensiynau Galwedigaethol (Datgelu Gwybodaeth) 1996 i baratoi adroddiad a chyfrifon archwiliedig cyn pen saith mis ar ôl diwedd y flwyddyn gyfrifyddu. Fodd bynnag, bwriad yr Ymddiriedolwyr yw cydymffurfio ag ethos y ddeddfwriaeth, ac yn hynny o beth, mae'r datganiad hwn wedi'i baratoi yn yr un modd â phe bai'r ddeddfwriaeth yn cael ei gweithredu.

## Asesiad Actiwaraidd

Nid yw'r Datganiadau Ariannol a geir ar dudalennau 40 i 41 yn ystyried y rhwymedigaethau i ddarparu buddion pensiwn sy'n dod yn ddyledus ar ôl diwedd y flwyddyn. Caiff y rhwymedigaethau hyn eu hystyried gan Actiwari'r Cynllun, sy'n gwneud prisiad actiwaraidd o rwymedigaethau o'r fath bob tair blynedd. Mae'r prisiad hwn yn ystyried sefyllfa ariannu'r Cynllun a lefel y cyfraniadau sy'n daladwy.

Cynhaliwyd asesiad actiwaraidd ffurfiol o'r Cynllun gyda dyddiad gweithredol, sef 31 Mawrth 2023, a'r prif amcan oedd gwneud argymhelliad i Ymddiriedolwyr y Cynllun ynghylch pennu cyfradd briodol ar gyfer cyfraniad y cyflogwr ar ôl y dyddiad hwnnw. Er bod swm cyfraniadau Aelodau wedi'i bennu yn y Rheolau, mae cyfradd cyfraniad y cyflogwr yn cael ei bennu fel canran y cyflog sydd ei hangen i dalu balans y gost gyda'r bwriad o sicrhau y telir am fuddion y Cynllun yn ystod gwasanaeth gweithredol disgwyliedig yr Aelodau â'r Senedd. Dylid cynnal y prisiad actiwaraidd tair blynedd nesaf ar 31 Mawrth 2026.

Mae'r dystysgrif actiwaraidd ffurfiol wedi'i chynnwys ar dudalennau 58 i 60.

## Prisiad yr Actiwari

Mae'n ofynnol i Actiwari'r Cynllun baratoi adroddiad ar sefyllfa ariannol gyffredinol y Gronfa bob tair blynedd, a gwneud argymhellion ar gyfradd cyfraniad y Senedd yn y dyfodol. Cwblhawyd y prisiad diweddaraf ar 31 Mawrth 2023, a gosodwyd yr adroddiad ar 5 Chwefror 2024, yn unol â rheolau'r Cynllun.

Roedd y datganiad gan yr Actiwari, dyddiedig 2 Chwefror 2024, yn argymell y dylai'r gyfradd gyfrannu leihau i 18.0% o gyflog pensiynadwy'r Aelodau o 1 Ebrill

2024. Mae’r gyfradd hon yn cynrychioli’r swm sy’n ofynnol i dalu costau’r Cynllun er mwyn sicrhau y telir am fuddion a chyfraniadau’r Aelodau gan ystyried gwasanaeth presennol a gwasanaeth yn y dyfodol.

Mae’r dystysgrif ddilynol, dyddiedig 13 Mai 2024, (tudalennau 58-60) yn cadarnhau bod cyfraniad Comisiwn y Senedd o 18.0% yn ddigonol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae’r lefel bresennol yn ddigonol i dalu am y buddion presennol. Mae’r datganiadau hyn yn seiliedig ar asedau a rhwymedigaethau’r Cynllun ar y dyddiad prisio. Mae'r rhwymedigaethau'n cynnwys brasamcan wrth gefn ar gyfer y costau sy'n deillio o rwymedi McCloud, ond nid yw'n cynnwys unrhyw gostau sy'n codi o gydraddoli GMP, y disgwylir iddynt effeithio ar nifer fach o aelodau'r Cynllun yn unig. Mae'r datganiadau hyn yn cydymffurfio'n llawn â gofynion Safon Actiwaraidd Technegol TAS 100 a TAS 300 a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adroddiadau Ariannol.

## Aelodaeth

Nodir isod aelodaeth y Cynllun ar ddechrau ac ar ddiwedd y flwyddyn, a’r newidiadau yn ystod y flwyddyn.

| **Aelodau gweithredol** | |
|---|---|
| Aelodaeth gyfrannol ar ddechrau'r flwyddyn, 1 Ebrill 2024 (58 o Aelodau o’r Senedd. O'r 60 o Aelodau o'r Senedd, mae 42 o Ddeiliaid Swyddi.) | 58 |
| Aelodau newydd yn ystod y flwyddyn | 0 |
| Aelodau sydd wedi gadael yn ystod y flwyddyn | 1 |
| Aelodau sydd wedi ymddeol yn ystod y flwyddyn | 0 |
| Marwolaeth mewn swydd | 0 |
| Aelodau a oedd yn cyfrannu ar 31 Mawrth 2025[3] | 57 |

| **Pensiynwyr** | |
|---|---|
| Yn cael taliadau ar 1 Ebrill 2024 | 80 |
| Aelodau sydd wedi ymddeol o wasanaeth gweithredol yn ystod y flwyddyn | 0 |
| Aelodau sydd wedi ymddeol o fod â statws gohiriedig | 0 |
| Dibynyddion newydd | 3 |
| Marwolaethau yn ystod y flwyddyn | 5 |

[3] Nid yw tri Aelod yn cyfrannu mwyach ar ôl optio allan yn 75 oed.

| **Pensiynwyr** | |
|---|---|
| Cymhwysedd buddiolwyr wedi dod i ben | 0 |
| Pensiynwyr a oedd yn cael taliadau ar 31 Mawrth 2025 | 78 |
| **Aelodau gohiriedig** | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 24 |
| Aelodau a adawodd gan gadw eu hawl i ohirio cymryd eu pensiwn | 0 |
| Aelodau sydd wedi ymddeol o fod â statws gohiriedig | (0) |
| Aelodau a drosglwyddodd fuddion allan o'r Cynllun | 0 |
| Marwolaethau yn ystod y flwyddyn | 0 |
| Aelodau sy'n gohirio cymryd eu pensiwn ar 31 Mawrth 2025 | 24 |

## Cynnydd mewn pensiynau

Datgelir manylion am y taliadau a wnaed o'r Cynllun yn ystod y flwyddyn yn Nodyn 5 sy'n cyd-fynd â'r cyfrifon. Adolygir y pensiynau sy'n cael eu talu bob blwyddyn yn unol â'r Gorchymyn Cynnydd Pensiynau (Adolygu). Gosodwyd gorchymyn 2024 gerbron y Senedd ar 8 Mawrth 2024, a daeth i rym ar 8 Ebrill 2024.

## Deiliaid Cronfeydd

| Cronfa | Deiliad |
|---|---|
| Cronfa BNYM Real Return (Responsible) (a elwid gynt yn Gronfa Sustainable Real Return) | BNY Mellon |
| Cronfa Generations Partners Group | BNY Mellon Trust & Depositary (UK) Limited |
| Cronfa L&G Managed Property | HSBC |
| Cronfa Baillie Gifford Defensive Growth (a elwid gynt yn Gronfa Sustainable Multi Asset Growt) | BNY Mellon |
| L&G Cash | HSBC |
| Cronfa Insight Responsible Horizons Multi-Sector Credit | Northern Trust Fiduciary Services (Ireland) Limited |
| Cronfa M&G Sustainable Total Return Credit Investment | State Street Bank International GmbH Luxembourg |

| Cronfa | Deiliad |
|---|---|
| Cronfa Gyson M&G Global Sustainable Paris | State Street Bank International GmbH Luxembourg |
| Cronfa L&G FTSE TPI Global Fossil Fuel Exclusions Equity Index - wedi'i rhagfantoli ar GBP | Citibank NA |
| | |

## Rheoli buddsoddiadau

Ceir mynediad at yr holl gronfeydd drwy Mobius Life Limited ("Mobius"), a'r ffioedd a delir gan y Cynllun yw'r rhai a godir gan Mobius. Mae'r tabl isod yn nodi'r tâl rheoli blynyddol a godir ar y Cynllun gan Mobius Life Limited am bob cronfa y buddsoddir ynddi.

Bu nifer o newidiadau i fuddsoddiadau'r Cynllun yn ystod y flwyddyn i adlewyrchu'r adolygiad o'r strategaeth fuddsoddi a gynhaliwyd gan y Bwrdd yn dilyn prisiad 2023.

| Cronfa | Tâl rheoli blynyddol (%) yn weithredol o 1 Ebrill 2024 |
|---|---|
| Cronfa BNYM Real Return (Responsible) (a elwid gynt yn Gronfa Sustainable Real Return) | 0.70 |
| Partners Group Generations | 1.175[1] |
| Mynegai L&G FTSE4Good Developed Equity heb ei ragfantoli (a elwid gynt yn Fynegai L&G Ethical Global Equity) | 0.35 |
| Mynegai L&G FTSE4Good Developed Equity wedi'i ragfantoli ar GBP (a elwid gynt yn Fynegai L&G Ethical Global Equity) | 0.375 |
| L&G Managed Property | 0.65 |
| Mynegai L&G Over 5 Year Index-Linked Gilts | 0.0875 |
| Cronfa Baillie Gifford Defensive Growth (a elwid gynt yn Gronfa Sustainable Multi Asset Growth) | 0.35 |
| L&G Cash | 0.10 |
| Cronfa Insight Responsible Horizons Multi-Sector Credit | 0.20[2] |
| Cronfa M&G Sustainable Total Return Credit Investment | 0.40[2] |
| Cronfa Gyson M&G Global Sustainable Paris | 0.60[2] |
| Cronfa L&G FTSE TPI Global Fossil Fuel Exclusions Equity Index - wedi'i rhagfantoli ar GBP | 0.15[2] |
| [1] Yn weithredol o 1 Mai 2024 ac [2] Yn effeithiol o'r cychwyn cyntaf | |

Cost rheoli'r gronfa yn 2024-25 oedd £245,576 (yn 2023-24 y swm oedd £226,350) gyda 'Threuliau Eraill' o £87,209 (yn 2023-24 y swm oedd £114,313). Mae'r asedau'n cael eu dal dan yr enw Mobius.

## Polisi buddsoddi

Yr Ymddiriedolwyr sy'n pennu Polisi Buddsoddi'r Cynllun a bydd yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd. Mae'r polisi a oedd mewn grym ar 31 Mawrth 2025

wedi’i nodi yn y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi, sydd wedi’i fabwysiadu gan yr Ymddiriedolwyr. Mae ar gael ar wefan **Senedd Cymru**[4], a gall Aelodau wneud cais i Ysgrifenyddiaeth y Cynllun i’w weld. Nid yw’r polisi yn caniatáu unrhyw fuddsoddiad cysylltiedig â’r cyflogwr.

Mae’r holl fuddsoddiadau wedi'u gwneud mewn daliannau a ganiateir gan reoliadau’r Cynllun ac na cheir eu gwahardd gan yr Ymddiriedolwyr.

Mae cyfrifoldeb dros reoli buddsoddiadau o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo i reolwyr buddsoddi sylfaenol priodol. Mae'r rheolwyr buddsoddi sylfaenol yn gweithredu yn unol â'r canllawiau a'r cyfyngiadau a nodir yn eu prosbectws Cronfa. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn rhoi cyfarwyddiadau ynghylch rheoli buddsoddiadau o ddydd i ddydd at ddibenion llif arian o bryd i'w gilydd.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisïau ar arfer hawliau ac ymgymryd â gweithgareddau ymgysylltu â rheolwyr buddsoddi, fel y’u nodir yn Natganiad o Egwyddorion Buddsoddi’r Cynllun.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn creu Datganiad Gweithredu blynyddol ar gyfer Cynllun Pensiwn Aelodau o’r Senedd, lle maent yn amlinellu sut maent wedi sicrhau cydymffurfiaeth â'r polisïau ar arfer hawliau ac ymgymryd â gweithgareddau ymgysylltu â rheolwyr buddsoddi, fel y nodir yn Natganiad o Egwyddorion Buddsoddi’r Cynllun.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod y cyfyngiadau y maent yn eu hwynebu o ran dylanwadu ar benderfyniadau cwmnïau oherwydd maint a natur buddsoddiadau'r Cynllun. Fodd bynnag, maent yn cydnabod yr angen i fod yn stiwardiaid cyfrifol ac arfer yr hawliau sy'n gysylltiedig â'u buddsoddiadau mewn modd cyfrifol.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried sut y mae'r ffactorau stiwardiaeth hyn yn cael eu hintegreiddio â'r prosesau buddsoddi wrth: (i) benodi rheolwyr buddsoddi newydd; a (ii) monitro’r rheolwyr buddsoddi presennol. Mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu polisïau stiwardiaeth eu rheolwyr drwy adroddiad blynyddol ac yn holi eu cynghorwyr yng nghyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr ynghylch ymagwedd y rheolwyr. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn parhau i sicrhau bod polisïau stiwardiaeth eu rheolwyr wedi'u hymgorffori yn eu prosesau buddsoddi.

[4] **https://senedd.cymru/media/cnvafrbx/20250221-044859-sip-cymraeg.pdf**

Mae’r Ymddiriedolwyr yn parhau i weithio tuag at eu hamcanion o ran ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu, a’u hamcanion buddsoddi, i leihau cyswllt uniongyrchol y Cynllun â’r sector olew a nwy.

Mae’r Ymddiriedolwyr wedi adolygu gweithgarwch pleidleisio ac ymgysylltu’r cronfeydd sy’n buddsoddi mewn ecwitïau ac maent yn fodlon yn gyffredinol bod rheolwyr buddsoddi’r Cynllun wedi cyflawni eu dyletswyddau stiwardiaeth yn briodol ac maent o’r farn eu bod wedi cydymffurfio â’r polisïau a’r gweithdrefnau perthnasol a nodir yn y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol o'r dystiolaeth gynyddol sy'n cysylltu materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu, yn enwedig newid hinsawdd, â pherfformiad ariannol cynaliadwy a chadarnhaol. Mae'r Ymddiriedolwyr am ystyried y materion hyn wrth weithredu'r strategaeth fuddsoddi ar gyfer y Cynllun, cyn belled nad yw hyn yn dylanwadu'n ormodol ar elw a phroffil risg y cronfeydd unigol, neu'r strategaeth, yn y dyfodol. Mae'r Bwrdd Pensiynau yn adolygu cymwysterau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu ei reolwyr yn flynyddol ac yn holi ei gynghorwyr ynghylch ymagwedd y rheolwyr at y materion hynny ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd Pensiynau. Mae’r Ymddiriedolwyr yn parhau i fuddsoddi yn unol â'r strategaeth fuddsoddi a nodir yn y Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi.

## Perfformiad hyd at 31 Mawrth 2025

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion am berfformiad cronfeydd y Cynllun, a'u targedau priodol hyd at 31 Mawrth 2025.

| | 1 flwyddyn (%) | 3 blynedd (%) | 5 mlynedd (%) |
|---|---|---|---|
| BNY Mellon Real Return (Responsible)[1]<br>*SONIA (adlog 30 diwrnod) + 4%*<br>Perfformiad cymharol | 1.2<br>8.9<br>(7.7) | (0.2)<br>8.0<br>(8.2) | 3.6<br>6.4<br>(2.8) |
| Partners Group Generations[2]<br>*Targed absoliwt o 7-11% y flwyddyn*<br>Perfformiad cymharol | 8.0<br>8.8<br>(0.8) | 5.2<br>7.6<br>(2.4) | 10.3<br>7.4<br>2.9 |
| Mynegai L&G FTSE4Good Developed Equity heb ei ragfantoli<br>*Mynegai FTSE4Good Global Equity (heb ei ragfantoli)*<br>Perfformiad cymharol | 3.2<br>3.7<br>(0.5) | 8.3<br>8.7<br>(0.4) | 15.3<br>15.7<br>(0.4) |
| *Mynegai L&G FTSE4Good Developed Equity wedi'i ragfantoli ar sterling*<br>*Mynegai FTSE4Good Global Equity (wedi'i ragfantoli ar sterling)*<br>Perfformiad cymharol | 6.1<br>6.6<br>(0.5) | 8.6<br>8.9<br>(0.3) | 16.4<br>16.8<br>(0.4) |
| L&G Managed Property[2]<br>*Meincnod Eiddo Cyfansawdd Heb Gynnwys Ffioedd*<br>Perfformiad cymharol | 6.6<br>6.4<br>0.2 | (2.8)<br>(3.3)<br>0.5 | 2.7<br>2.7<br>0.0 |
| Mynegai L&G Over 5-Year Index Linked Gilts<br>*Mynegai FTSE Actuaries Index-Linked (Dros 5 Mlynedd)*<br>Perfformiad cymharol | (10.5)<br>(10.4)<br>(0.1) | (16.7)<br>(16.6)<br>(0.1) | (9.1)<br>(9.0)<br>(0.1) |
| Baillie Gifford Defensive Growth (a elwid gynt yn SUSMA)[1]<br>*Cyfradd Sylfaenol ynghyd â 3.5% y flwyddyn*<br>Perfformiad cymharol | 5.1<br>8.5<br>(3.4) | Dd/B | Dd/B |
| L&G Cash<br>*SONIA*<br>Perfformiad cymharol | 4.9<br>5.1<br>(0.2) | 4.0<br>4.1<br>(0.1) | 2.4<br>2.5<br>(0.1) |
| Insight Responsible Horizons Multi-Sector Credit[5]<br>SONI +4%<br>Perfformiad cymharol | 8.1<br>9.1<br>(1.0) | Dd/B | Dd/B |
| M&G Sustainable Total Return Credit Investment[6]<br>SONIA + 3-5^<br>Perfformiad cymharol | 7.6<br>8.1<br>(0.5) | 7.1<br>7.1<br>0.0 | Dd/B |
| M&G Global Sustainable Paris Aligned[3]<br>MSCI World Index (GBP)<br>Perfformiad cymharol | (1.8)<br>5.2<br>(7.0) | 6.4<br>8.8<br>(2.4) | Dd/B |
| Mynegai L&G FTSE TPI Global (ex Fossil Fuels)Equity wedi'I ragfantoli ar GBP[4]<br>Mynegai FTSE4Good Developed Equity wedi'i ragfantoli ar GBP<br>Perfformiad cymharol | 6.8<br>7.6<br>(0.8) | Dd/B | Dd/B |

| | 1 flwyddyn (%) | 3 blynedd (%) | 5 mlynedd (%) |
|---|---|---|---|
| Amcangyfrif o berfformiad y cynllun | 3.0 | 1.6 | 6.8 |

Ffynhonnell: Net o ffioedd. [1]Sefydlwyd y Gronfa ym mis Mai 2022. [3]Meincnod yw'r mynegai MSCI/AREF UK Quarterly All Balanced Property Fund (UK PFI). [3]Sefydlwyd y Gronfa ym mis Medi 2021. [4]Sefydlwyd y Gronfa ym mis Mawrth 2024. [5]Sefydlwyd y Gronfa ym mis Mai 2022. [6]Sefydlwyd y Gronfa ym mis Hydref 2021.

Dros y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025 cynhyrchodd portffolio buddsoddi'r Cynllun elw o tua 3.0%. Sbardunwyd hyn gan enillion yng ngwerth pob dosbarth o asedau mawr yn ystod y cyfnod, yn enwedig ecwiti.

Yr elw gwirioneddol ar fuddsoddiadau'r Cynllun yn ystod 2024-25 oedd enillion o £1.4 miliwn (2023-24, enillion o £4.4 miliwn). Tanberfformiodd strategaeth fuddsoddi'r Cynllun yn erbyn marchnadoedd ecwiti dros yr un cyfnod, a gynyddodd mewn gwerth gan tua 4.8% (mewn termau lleol), ond perfformiodd yn well na bondiau hirdymor Llywodraeth y DU (a ddychwelodd tua -8.2%). Tanberfformiodd y Cynllun yn erbyn ei gyfradd ddisgownt (Mynegai Prisiau Defnyddwyr plws 3.0%), a wnaeth elw o tua 5.6% yn ystod cyfnod o chwyddiant uwch.

## Prisiad Portffolio 31 Mawrth 2024

| | 31 Mawrth 2024 GBP |
|---|---|
| Cronfa BNYM Mellon Real Return (Responsible) (a elwid gynt yn Gronfa Sustainable Real Return) | 13,481,310 |
| Partners Group Generations | 5,177,018 |
| L&G FTSE4Good heb ei ragfantoli (a elwid gynt yn Fynegai L&G Ethical Global Equity) | 8,447,087 |
| L&G FTSE4Good wedi'i ragfantoli ar sterling (a elwid gynt yn Fynegai L&G Ethica Equity) | 8,444,132 |
| L&G Managed Property | 2,056,335 |
| Mynegai L&G Over 5 Year Index-Linked Gilts | 2,770,125 |
| Baillie Gifford Defensive Growth (a elwid gynt yn Sustainable Multi Asset) | 6,617,480 |
| L&G Cash | -- |
| **Cyfanswm** | **46,993,505** |

## Prisiad Portffolio 31 Mawrth 2025

| | 31 Mawrth 2025 GBP |
|---|---|
| Cronfa BNYM Mellon Real Return (Responsible) (a elwid gynt yn Gronfa Sustainable Real Return) | 6,609,509 |
| Partners Group Generations | 5,585,883 |
| Mynegai L&G FTSE4Good Developed Equity heb ei ragfantoli | -- |
| Mynegai L&G FTSE4Good Developed Equity wedi'i ragfantoli ar GBP | -- |
| L&G Managed Property | 2,614,518 |
| Mynegai L&G Over 5 Year Index-Linked Gilts | -- |
| Baillie Gifford Defensive Growth (a elwid gynt yn Sustainable Multi Asset) | 4,927,416 |
| L&G Cash | -- |
| Insight Responsible Horizons Multi-Sector Credit Fund | 4,930,420 |
| Cronfa M&G Sustainable Total Return Credit Investment | 4,936,121 |
| Cronfa Gyson M&G Global Sustainable Paris | 9,574,709 |
| Cronfa L&G FTSE TPI Global Fossil Fuel Exclusions Equity Index - wedi'i rhagfantoli ar GBP | 9,255,750 |
| **Cyfanswm** | **48,434,326** |

## Dosraniad yr Asedau

| **Dosraniad yr asedau oedd:** | 31 Mawrth 2024 % |
|---|---|
| Baillie Gifford Defensive Growth (a elwid gynt yn Sustainable Multi Asset) | 14.0 |
| BNY Mellon Sustainable Real Return | 28.7 |
| Partners Group Generations | 11.0 |
| Mynegai L&G FTSE4Good Developed Equity | 18 |
| Mynegai L&G FTSE4Good Developed Equity wedi'i ragfantoli ar GBP | 18 |
| L&G Managed Property | 4.4 |
| Mynegai L&G Over 5 Year Index-Linked Gilts | 5.9 |
| L&G Cash | 0.0 |
| **Cyfanswm** | **100.0** |

| **Dosraniad yr asedau oedd:** | **31 Mawrth 2025 %** |
|---|---|
| Cronfa Baillie Gifford Defensive Growth (a elwid gynt yn Gronfa Sustainable Multi Asset Growth) | 10.2 |
| BNY Mellon Real Return (Responsible) (a elwid gynt yn Sustainable Real Return) | 13.6 |
| Partners Group Generations | 11.5 |
| Mynegai L&G FTSE4Good Developed Equity | 0.0 |
| Mynegai L&G FTSE4Good Developed Equity wedi'i ragfantoli ar GBP | 0.0 |
| L&G Managed Property | 5.4 |
| Mynegai L&G Over 5 Year Index-Linked Gilts | 0.0 |
| L&G Cash | 0.0 |
| Cronfa Insight Responsible Horizons Multi-Sector Credit | 10.2 |
| Cronfa M&G Sustainable Total Return Credit Investment | 10.2 |
| Cronfa Gyson M&G Global Sustainable Paris | 19.8 |
| Cronfa L&G FTSE TPI Global Fossil Fuel Exclusions Equity Index - wedi'i rhagfantoli ar GBP | 19.1 |
| **Cyfanswm** | **100.0** |

[1]Cyflwynwyd y gronfa L&G Cash ym mis Ionawr 2021 i'w defnyddio ar adegau pan fo angen lefel uchel o lif arian (fel cyn etholiad); defnyddiodd y Cynllun y gronfa at ddibenion rheoli arian parod. Er gwybodaeth, nid yw'r Gronfa yn rhan o ddyraniad asedau strategol y Cynllun. Efallai na fydd y cyfansymiau'n adio oherwydd talgrynnu.

Llofnod

**Charles Ward**
Rheolwr Gyfarwyddwr Dalriada Trustees

Llofnod

**Bob Evans**
Ymddiriedolwr

# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr am y Datganiadau Ariannol

Yr Ymddiriedolwyr sy’n gyfrifol am y Datganiadau Ariannol. Nid yw’n ofynnol drwy statud i’r Ymddiriedolwyr gydymffurfio â rheoliadau cynlluniau pensiwn, ond maent wedi cytuno i wneud hynny pan fydd yn bosibl oherwydd ei fod yn arfer da. Yn ôl y rheoliadau, rhaid i Ymddiriedolwyr sicrhau bod datganiadau ariannol archwiliedig ar gyfer bob Cynllun ar gael i aelodau’r Cynllun, buddiolwyr a rhai partïon eraill a bod yn rhaid i’r datganiadau hyn wneud y canlynol:

- Rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol y Cynllun yn ystod blwyddyn y Cynllun ac o faint a sefyllfa’r asedau a’r rhwymedigaethau ar ddiwedd y flwyddyn honno, ar wahân i’r rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion ar ôl diwedd blwyddyn y Cynllun, a

- Chynnwys y wybodaeth benodol yn yr Atodlen i’r Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gofyniad i gael Cyfrifon Archwiliedig a Datganiad gan yr Archwilydd) 1996, gan gynnwys datganiad yn nodi a yw’r datganiadau ariannol wedi’u paratoi yn unol â’r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir 'Adroddiadau Ariannol o Gynlluniau Pensiwn’.

Mae’r Ymddiriedolwyr wedi goruchwylio’r gwaith o baratoi’r datganiadau ariannol ac maent wedi cytuno ar bolisïau cyfrifyddu addas, sydd i’w gweithredu’n gyson, gan wneud unrhyw amcangyfrifon a dod i unrhyw farn ar sail ddarbodus a rhesymol.

Yr Ymddiriedolwyr sy’n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau’r Cynllun ac argymhellion yr Actiwari o ran y cyfraniadau sy’n daladwy i’r Cynllun gan y cyflogwr ac aelodau gweithredol y Cynllun, neu ar eu rhan, a’r dyddiadau erbyn pryd mae angen talu’r cyfraniadau. Mae’r Ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am gadw cofnod o gyfraniadau a dderbyniwyd mewn perthynas ag unrhyw aelod gweithredol o’r Cynllun ac am sicrhau bod cyfraniadau’n cael eu gwneud i’r Cynllun yn unol ag argymhellion Actiwari’r Cynllun.

Hefyd, mae gan yr Ymddiriedolwyr gyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau bod cofnodion cyfrifyddu digonol yn cael eu cadw ac am gymryd y camau rhesymol sydd ar gael iddynt i ddiogelu asedau’r Cynllun ac i atal a darganfod unrhyw dwyll neu anghysonderau eraill, gan gynnwys cynnal dulliau rheoli mewnol priodol.

## Crynodeb o'r cyfraniadau a dalwyd yn ystod y flwyddyn

Dyma'r cyfraniadau a dalwyd i'r Cynllun yn ystod y flwyddyn gan y Cyflogwr yn unol ag argymhellion yr Actiwari:

| | 2024-25<br>£ | 2023-24<br>£ |
|---|---:|---:|
| Cyfraniadau arferol y cyflogwr | 923,971 | 982,055 |
| Ôl-ddyledion cyfraniadau'r cyflogwr | 0 | 89,204 |
| Cyfraniadau arferol y cyflogai | 533,636 | 517,556 |
| **Cyfanswm** | **1,457,607** | **1,588,815** |

Llofnod

**Charles Ward**
Rheolwr Gyfarwyddwr Dalriada Trustees
**Dyddiad**

Llofnod

**Bob Evans**
Ymddiriedolwr

# Datganiad Llywodraethu

## Cwmpas y Cyfrifoldeb

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb fel Ymddiriedolwyr dros gynnal system gadarn o lywodraethu i ddiogelu cronfeydd ac asedau cyhoeddus sy'n gysylltiedig â Chynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd ("y Cynllun"). Caiff cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr eu diffinio'n glir yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr ar dudalen 28.

Mae'r Cynllun yn gynllun statudol ac mae'n gynllun pensiwn cofrestredig o dan Ddeddf Cyllid 2004. Mae'r Cynllun wedi'i gofrestru gyda'r Rheoleiddiwr Pensiynau a rhif Cofrestrfa'r Cynllun Pensiwn (PSR) yw 12015963. Cyfeirnod Treth y Cynllun Pensiwn (PSTR) yw 00462258RW.

Mae'r Tîm Pensiynau, o fewn Tîm Gwasanaethau Ariannol y Senedd, yn darparu gwasanaethau ysgrifenyddol a, chyn penodi Broadstone yn weinyddwr y Cynllun, gwasanaethau gweinyddol i'r Ymddiriedolwyr. Mae'r trefniant hwn a phenodiad Broadstone yn weinyddwr y Cynllun wedi'i gwmpasu gan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Bwrdd Taliadau'r Senedd (y Bwrdd), Comisiwn y Senedd (y Comisiwn) a'r Ymddiriedolwyr. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn nodi rolau a chyfrifoldebau priodol y Bwrdd, y Comisiwn a'r Ymddiriedolwyr o ran rheoli a gweinyddu'r Cynllun. Mae Cylch Gorchwyl y Bwrdd Pensiynau yn nodi'r cyfrifoldebau hynny sy'n benodol i'r Bwrdd, gan gwmpasu'r cylch gwaith, yr hyn sy'n ofynnol gan aelodau'r Bwrdd a'r broses benodi. Mae'r ddogfen hon wedi'i diweddaru eleni i adlewyrchu penodiad Broadstone a gofynion Cod Ymarfer Cyffredinol y Rheoleiddiwr Pensiynau, gyda'r newidiadau y cytunwyd arnynt gan bob plaid.

## Y Fframwaith Llywodraethu

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd pedwar cyfarfod o'r Ymddiriedolwyr, a hynny ym mis Mehefin, mis Hydref, mis Ionawr a mis Mawrth, gan gynnwys cyfarfod ychwanegol. Mae'r tabl presenoldeb isod yn dangos cyfran yr holl gyfarfodydd y bu'r Ymddiriedolwyr a benodwyd ar y dyddiadau hynny yn bresennol ynddynt.

| Enw | Canran y cyfarfodydd y bu'r ymddiriedolwyr yn bresennol ynddynt |
|---|---|
| Cadeirydd Gregor Law | 100% |
| Mike Hedges AS, Cynrychiolydd yr Aelodau | 100% |

| Enw | Canran y cyfarfodydd y bu'r ymddiriedolwyr yn bresennol ynddynt |
|---|---|
| Nick Ramsay, Cynrychiolydd yr Aelodau | 100% |
| Robert Evans, Cynrychiolydd y Comisiwn | 100% |
| Hefin David AS, Cynrychiolydd y Comisiwn | 75% |

Yn ystod y flwyddyn, trafododd yr Ymddiriedolwyr yr adroddiadau manwl a ganlyn:

- Adroddiad yr Archwilydd ar y Datganiadau Ariannol
- Adolygiad o'r Cynghorwr Buddsoddi yn erbyn ei Amcanion
- Adolygiad o gynghorwyr actiwaraidd a chyfreithiol ac archwilydd
- Adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd Pensiynau
- Adolygiad o'r Cynllun Busnes, gan gynnwys hyfforddiant Ymddiriedolwyr
- Adolygiad Blynyddol o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth Gweinyddol
- Rhwymedi McCloud
- Polisi seiberddiogelwch
- Adolygiad o bolisïau yn unol â Chod Cyffredinol y Rheoleiddiwr
- Adolygiad o strategaeth fuddsoddi a metrigau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu
- Adolygiad o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a chylch gorchwyl y Bwrdd
- Dangosfyrddau Pensiynau
- Rhoi gweinyddiaeth pensiynau ar gontract allanol i weinyddwr pensiynau trydydd parti
- Datganiad ynghylch gweithredu'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi
- Y wybodaeth ddiweddaraf am gyllido'r cynllun

Roedd y wybodaeth hon, ynghyd â phapurau briffio ychwanegol a luniwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth, yn darparu data o ansawdd da a oedd yn caniatáu i'r

Ymddiriedolwyr arfer eu swyddogaethau'n effeithiol yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn. At hynny, yn sgil yr archwiliad mewnol o weinyddiaeth y Cynllun yn 2018, cofnodwyd graddfa barn sicrwydd sylweddol ar weinyddiaeth y Cynllun a daeth i'r casgliad bod fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Cynllun yn ddigonol ac yn effeithiol ac ni wnaeth unrhyw argymhellion ar gyfer newid. Cynhelir archwiliad mewnol pellach unwaith y caiff polisïau'r Ymddiriedolwyr eu diweddaru i adlewyrchu gofynion Cod Ymarfer Sengl Newydd y Rheoleiddiwr Pensiynau.

## Diben y system rheolaeth fewnol

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i chynllunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly, dim ond sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd y gall ei ddarparu, ac nid sicrwydd absoliwt.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus i geisio nodi'r prif risgiau i nodau ac amcanion y Cynllun, er mwyn gwerthuso natur a maint y risgiau hynny a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae'r system yn seiliedig ar fframwaith o reoli gwybodaeth yn rheolaidd, rheoli ariannol, gweithdrefnau gweinyddol, gan gynnwys gwahanu dyletswyddau, a system o ddirprwyo a sicrhau atebolrwydd. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod ar waith yn y Cynllun ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a chyfrifon.

## Problemau sylweddol o ran rheolaeth fewnol

Ni nodwyd unrhyw broblemau sylweddol o ran rheolaeth fewnol yn ystod y flwyddyn.

## Y gallu i ymdopi â risg

Caiff y cyfrifoldeb dros gyfrifyddu'r Cynllun o ddydd i ddydd ei ysgwyddo ar hyn o bryd ar ran yr Ymddiriedolwyr gan staff yr Ysgrifenyddiaeth o fewn tîm Gwasanaethau Ariannol Comisiwn y Senedd, sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth. Rhoddodd y Comisiwn y gwaith o weinyddu'r Cynllun ar gontract allanol i ddarparwr gweinyddiaeth trydydd parti, Broadstone, ym mis Gorffennaf 2024. Dilynwyd dull caffael safonol y Comisiwn a hysbysebwyd y cyfle contract ar gyfer Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd - Gweinyddiaeth trydydd parti - drwy'r porth GwerthwchiGymru. Gwerthuswyd y tendrau yn erbyn meini prawf gwerthuso a bennwyd ymlaen llaw a amlinellwyd yn y Fanyleb.

Dyfarnodd y Comisiwn y contract i Broadstone, sydd bellach yn weinyddwr y Cynllun.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi cytuno ar Gytundeb Gweinyddu cadarn gyda Broadstone sy'n nodi'r amserlenni ar gyfer cwblhau'r gwahanol dasgau wrth weinyddu'r Cynllun. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn monitro'r tasgau hyn a'r amserlenni y cytunwyd arnynt ar gyfer eu cwblhau. Tîm pensiwn mewnol y Comisiwn fydd y prif bwynt cyswllt i'r Aelodau o hyd ac maent wedi bod yn gweithio'n agos gyda Broadstone yn ystod y cyfnod trosglwyddo sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd.

## Digwyddiadau o ran data personol

Ni fu unrhyw achosion o dorri rheolau data personol yn ystod y flwyddyn sy'n debygol o arwain at risg i hawliau a rhyddidau, ac felly nid yw'r Ymddiriedolwyr wedi gwneud unrhyw adroddiadau i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, ac ni fu unrhyw gyfathrebu arall â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, mewn perthynas â data personol.

## Rheoli risg

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, adolygwyd y gofrestr risg ar gyfer y Cynllun, a chafodd ei diweddaru a'i chytuno gyda'r Ymddiriedolwyr fel rhan o'r cynllun busnes tymor canolig. Mae pob risg yn cael ei nodi ac yn cael sgôr yn seiliedig ar ffactorau fel y tebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd a'r effaith y gallai'r risg ei chael pe bai'n digwydd. Mae'r sgôr risg yn adlewyrchu'r rheolaethau sydd eisoes ar waith i reoli pob risg a nodwyd. Mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu rhan o'r gofrestr risg ym mhob cyfarfod yn ogystal ag adolygu pa mor agored yw'r Cynllun i risgiau newydd. Defnyddiwyd y gofrestr a ddeilliodd o hyn i ganfod unrhyw fesurau ychwanegol a ystyrir yn angenrheidiol i reoli'r risgiau yn effeithiol. Mae'r gofrestr risg wedi'i diweddaru i adlewyrchu'r risgiau sy'n gynhenid wrth roi'r gwaith gweinyddol ar gontract allanol. Ceir rhagor o fanylion am y risgiau buddsoddi yn Nodyn 13 ar dudalennau 53-55.

## Adolygu effeithiolrwydd

Cawn gymorth i ddatblygu a chynnal y rheolaethau mewnol gan uwch-reolwyr y Senedd sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol.

Caiff ein hadolygiad o effeithiolrwydd y rheolaethau hyn ei lywio gan waith Archwilydd Cyffredinol Cymru. Caiff y sylwadau a wnaeth Archwilydd Cyffredinol

Cymru yn ei lythyr rheoli ac mewn adroddiadau eraill eu hystyried, ond fel arfer nid yw'r gwaith hwn yn cynnwys profi rheolaethau.

Rydym yn fodlon bod y rheolaethau mewnol sydd ar waith wedi bod yn effeithiol yn ystod y cyfnod dan sylw yn yr adroddiad hwn.

Cymeradwywyd ar ran yr Ymddiriedolwyr ar 11 Gorffennaf 2025 gan:

Llofnod

**Charles Ward**
Rheolwr Gyfarwyddwr Dalriada Trustees

Llofnod

**Bob Evans**
Ymddiriedolwr

# Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd

## Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 o dan Ddeddf Pensiynau 1995.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys cyfrif y gronfa, y datganiad asedau net a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu perthnasol.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw cyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102, y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn fy marn i, ym mhob modd perthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o drafodion ariannol y cynllun yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025, ac o swm a sefyllfa ei asedau a'i rwymedigaethau ar y dyddiad hwnnw, heblaw am y rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion ar ddiwedd y flwyddyn.
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac
- yn cynnwys y wybodaeth a bennir yn Rheoliad 3A o Reoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gofyniad i gael Cyfrifon Archwiliedig a Datganiad gan yr Archwilydd) 1996, a wneir o dan Ddeddf Pensiynau 1995.

## Sail dros y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith gymwys a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (UK)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol o Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran ar gyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio datganiadau ariannol yn fy adroddiad.

Rwy'n annibynnol ar gynllun pensiwn Aelodau o'r Senedd yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy

nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn i.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth lunio'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, nid wyf wedi dod o hyd i unrhyw ansicrwydd o bwys yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, godi amheuon sylweddol ynghylch gallu'r cynllun i barhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes gweithredol yn yr adrannau perthnasol yn yr adroddiad hwn.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a geir yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilio cysylltiedig. Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ar wahân i’r graddau a nodir yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi casgliad sicrwydd arnynt. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu’r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu a yw’n ymddangos ei bod yn cyfateb i gamddatganiad o bwys. Os byddaf yn dod o hyd i anghysondebau sylweddol o'r fath neu os ymddengys bod camddatganiadau o bwys, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod y wybodaeth arall hon yn gamddatganiad o bwys, mae'n ofynnol imi adrodd hynny. Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

## Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr dros y datganiadau ariannol

Fel yr eglurir yn fanylach yn y datganiad o gyfrifoldebau’r Ymddiriedolwyr, a nodir ar dudalen 28, mae’r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- llunio’r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol cymwys ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi barn wir a theg;

- rheolaethau mewnol fel y mae’r ymddiriedolwyr yn penderfynu eu bod yn angenrheidiol i alluogi datganiadau ariannol i gael eu llunio heb gamddatganiad o bwys, boed oherwydd twyll neu wall;
- asesu gallu’r cynllun i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio’r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu oni bai bod yr Ymddiriedolwyr yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Gomisiwn y Senedd yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

- Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Pensiynau 1995.
- Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn rhydd o gamddatganiad o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, ac i gyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o bwys mewn adroddiad. Gall camddatganiadau godi o ganlyniad i dwyll neu wall ac ystyrir eu bod o bwys os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, ar eu pennau eu hunain neu gyda’i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.
- Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achos o anghydymffurfedd â deddfau a rheoliadau. Byddaf yn cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ddod o hyd i gamddatganiadau o bwys mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.
- Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:
    - cael gwybodaeth gan reolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol cysylltiedig â pholisïau a gweithdrefnau Cynllun Pensiwn Aelodau o’r Senedd yn ymwneud â’r canlynol:
    - nodi a gwerthuso deddfau a rheoliadau a chydymffurfio â hwy ac a oeddent yn ymwybodol o achosion o anghydymffurfedd;

    - dod o hyd i risgiau'n ymwneud â thwyll ac ymateb iddynt, ac a oes ganddynt wybodaeth am dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig;
    - rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu anghydymffurfedd â deddfau a rheoliadau.
- ystyried, fel tîm archwilio, sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol, a dangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais bosibilrwydd twyll mewn perthynas â rheolwyr yn diystyru rheolaethau;
- cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd, yn ogystal â'r fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill sy'n berthnasol i'r Cynllun, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau'r Cynllun.
- cael dealltwriaeth o berthynas partïon cysylltiedig

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i'r risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu a oeddent yn cydymffurfio â'r deddfau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod.
- cael gwybodaeth gan reolwyr ac Ymddiriedolwyr ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl.
- darllen cofnodion cyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr, a
- mynd i'r afael â'r risg o dwyll a all godi os yw rheolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r penderfyniadau a wneir wrth gyflwyno amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes trafodiadau arwyddocaol sy'n anarferol neu sydd y tu allan i fusnes arferol.

Rwyf hefyd wedi tynnu sylw holl aelodau'r tîm archwilio at y deddfau a'r rheoliadau perthnasol a nodwyd a'r risgiau posibl o ran twyll ac wedi parhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid sydd ynghlwm wrth ddod o hyd i afreoleidd-dra, effeithiolrwydd mesurau rheoli Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd, a natur, amseriad a chwmpas y gweithdrefnau archwilio sydd ar waith, yn effeithio ar allu fy ngweithdrefnau i ddod o hyd i dwyll.

Mae disgrifiad ychwanegol o gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol: **www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities**. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

## Cyfrifoldebau archwilio eraill

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, ymhlith materion eraill, gan gynnwys diffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

Llofnod

**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru
14 Gorffennaf 2025

1 Capital Quarter
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cynnal a chadw a sicrhau cywirdeb gwefan Senedd; nid yw'r gwaith y mae Archwilwyr yn ymgymryd ag ef yn ystyried y materion hyn ac, oherwydd hyn, nid yw Archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi'u gwneud i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno am y tro cyntaf ar y wefan.

# Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025

| Cyfrif y Gronfa | Nodyn | 2024-25<br>£ | 2023-24<br>£ |
|---|---|---|---|
| Cyfraniadau a buddion | | | |
| Cyfraniadau'r cyflogwr | 4 | 923,971 | 1,071,259 |
| Cyfraniadau'r cyflogai | 4 | 533,636 | 517,556 |
| **Cyfanswm y cyfraniadau** | | **1,457,607** | **1,588,815** |
| Llog a dderbyniwyd | | 623 | 898 |
| Incwm arall | | 0 | 0 |
| | | **1,458,230** | **1,589,713** |
| Buddion a dalwyd neu sy'n daladwy | 5 | (1,315,044) | (1,519,796) |
| Ffioedd proffesiynol | 10 | (148,443) | (184,054) |
| Treuliau gweinyddol | 8 | (14,371) | (4,078) |
| | | **(1,477,858)** | **(1,707,928)** |
| | | | |
| **Ychwanegiadau net o drafodion ag Aelodau** | | **(19,628)** | **(118,215)** |
| **Incwm o fuddsoddiadau** | | | |
| Newid yng ngwerth buddsoddiadau ar y farchnad | 11 | 1,683,610 | 4,743,760 |
| Treuliau rheolwyr buddsoddi | 12 | (332,788) | (340,663) |
| **Adenillion net ar fuddsoddiadau** | | **1,350,822** | **4,403,097** |
| | | | |
| **Swm y cynnydd/(gostyngiad) net yn y gronfa** | | **1,331,194** | **4,284,882** |
| Asedau net adeg agor y Cynllun | | 47,086,046 | 42,801,164 |
| | | | |
| **Asedau net adeg cau'r Cynllun** | | **48,417,240** | **47,086,046** |

| Datganiad o'r asedau net | Nodyn | Fel ar 31 Mawrth 2025 £ | Fel ar 31 Mawrth 2024 £ |
|---|---|---|---|
| **Asedau buddsoddi** | | | |
| Buddsoddiad cronedig | 9 | 48,434,326 | 46,993,505 |
| | | | |
| Cyfanswm y buddsoddiadau | | 48,434,326 | 46,993,505 |
| | | | |
| **Asedau cyfredol** | 6 | **49,011** | **147,353** |
| | | | |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | 7 | **(66,097)** | **(54,812)** |
| | | | |
| **Cyfanswm asedau net y Cynllun** | | **48,417,240** | **47,086,046** |

Crynhoi trafodiadau ac asedau net y Cynllun yn unig y mae'r Datganiadau Ariannol, ac nid ydynt yn ystyried rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion sy'n ddyledus ar ôl diwedd blwyddyn y Cynllun. Ymdrinnir â safbwynt yr Actiwari, sy'n ystyried rhwymedigaethau o'r fath, yn Natganiad yr Actiwari ar dudalennau 58 i 60, a dylid darllen y Datganiadau Ariannol hyn ar y cyd â'r adroddiad hwnnw.

Cymeradwywyd gan yr Ymddiriedolwyr ar 11 Gorffennaf 2025.

Llofnod

**Charles Ward**
Rheolwr Gyfarwyddwr Dalriada Trustees

Llofnod

**Bob Evans**
Ymddiriedolwr

Mae'r nodiadau ar dudalennau 42-55 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau i gyd-fynd â'r Cyfrifon

## 1. Sail y gwaith paratoi

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi yn unol â Safon Adrodd Ariannol 102 – y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon, a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol, ac â'r canllawiau a nodir yn y Datganiad o Arferion Cymeradwy (SORP) ar Adroddiadau Ariannol Cyfrifon Cynllun Pensiwn, a adolygwyd ym mis Gorffennaf 2018.

Mae'r cyfrifon yn rhoi crynodeb o drafodion ac asedau net y Cynllun. Nid ydynt yn ystyried rhwymedigaethau i dalu pensiynau a buddion eraill ar ôl diwedd blwyddyn y Cynllun.

Mae'r adroddiad actiwaraidd yn ystyried y rhwymedigaethau hyn (gellir gweld Datganiad yr Actwari ar dudalennau 58-60).

## 2. Polisïau cyfrifyddu

Dyma brif bolisïau cyfrifyddu'r Cynllun:

**Incwm o fuddsoddiadau**

- Caiff incwm o adneuon arian parod ac adneuon byrdymor eu cyfrif ar sail croniadau.
- Caiff incwm o fuddsoddiadau sy'n deillio o fuddsoddiadau sylfaenol y cyfryngau buddsoddi cronedig eu cyflwyno yn y gronfa fuddsoddi, a'u hadlewyrchu yng ngwerth yr unedau a'r cyfranddaliadau, ac nid adroddir arno ar wahân yn natganiadau ariannol y Cynllun.
- Mae llog adneuon arian parod yn cronni'n ddyddiol.

**Cyfraniadau**

- Rhoddir cyfrif am gyfraniadau cyflogeion pan fyddant yn cael eu didynnu o gyflog Aelodau.
- Rhoddir cyfrif am gyfraniadau arferol y cyflogwr ar yr un sail â chyfraniadau cyflogeion.

**Trosglwyddiadau**

- Mae gwerth yr holl symiau ariannol a drosglwyddwyd i Gynlluniau pensiwn eraill yn cael eu cyfrifo a'u gwirio gan Actiwari'r Cynllun yn unol â Deddf Cynlluniau Pensiwn 1993.
- Rhoddir cyfrif am fuddion yn y cyfnod y maent yn ddyledus, a rhoddir cyfrif am ad-daliadau cyfraniadau pan fyddant yn cael eu gwneud.
- Rhoddir cyfrif am drosglwyddiadau unigol allan o'r Cynllun pan delir neu pan dderbynnir y swm dan sylw, sy'n digwydd fel arfer pan dderbynnir rhwymedigaeth i Aelod neu pan ryddheir o'r rhwymedigaeth honno.

**Treuliau**

- Rhoddir cyfrif am wariant yn y cyfnod sy'n berthnasol iddo.

**Treuliau buddsoddi eraill**

- Pan na fydd treuliau'r chwarter olaf yn hysbys ar adeg cyhoeddi'r adroddiad, caiff treuliau buddsoddi eraill eu cyfrifo ar gyfer pob cronfa o'r cyfartaledd o'r holl wybodaeth am dreuliau a oedd ar gael ym mhob chwarter ac maent yn seiliedig ar brisiadau diwedd mis.
- Darparwyd gwybodaeth arall am gostau buddsoddi gan Mobius Life ac L&G ac fe'u cyfrifwyd drwy ychwanegu'r ffigurau 'treuliau' a rhoddir cyfrif amdanynt yn y cyfnod y maent yn ymwneud ag ef.

**Treth**

Mae'r Cynllun yn gynllun pensiwn statudol o dan Adran 611A o Ddeddf Trethi Incwm a Chorfforaethol 1988, fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 12 o Ddeddf Cyllid 1999 ac mae'n gynllun cofrestredig tybiedig o dan Ddeddf Pensiynau 2004. Felly, mae'r Cynllun wedi'i eithrio o drethiant. Cyfeirnod Treth y Cynllun Pensiwn (PSTR) yw 00462258RW.

**Prisio buddsoddiadau**

Defnyddiwyd yr hierarchaeth gwerth teg a ganlyn i bennu gwerth teg offerynnau ariannol:

**Lefel 1** Y pris a ddyfynnwyd heb ei addasu mewn marchnad weithredol ar gyfer asedau neu rwymedigaethau union yr un fath y gall yr endid gael mynediad atynt ar y dyddiad mesur.

**Lefel 2** Mewnbynnau heblaw'r prisiau a ddyfynnir sydd wedi'u cynnwys yn Lefel 1 sy'n weladwy (h.y. wedi'u datblygu gan ddefnyddio data'r farchnad) ar gyfer yr ased neu rwymedigaeth, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

**Lefel 3** Nid oes modd gweld mewnbynnau (h.y. lle nad oes data marchnad ar gael) ar gyfer yr ased neu rwymedigaeth.

Mae asedau a rhwymedigaethau buddsoddi'r Cynllun wedi cael eu prisio'n deg gan ddefnyddio'r categorïau hierarchaeth uchod fel a ganlyn:

| Fel ar 31 Mawrth 2025 | Lefel 1 £ | Lefel 2 £ | Lefel 3 £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|
| Cyfryngau Buddsoddi Cronedig | 14,960,797 | 27,887,646 | 5,585,883 | 48,434,326 |
| Arian Cadw | -- | -- | -- | -- |
| **Cyfanswm** | **14,960,797** | **27,887,646** | **5,585,883** | **48,434,326** |

Caiff buddsoddiadau cronedig eu prisio ar bris teg a nodir ar y pris terfynol sengl sy'n cael ei gyfrifo ar sail pris terfynol y gwarannau gwaelodol ar 31 Mawrth bob blwyddyn. Gall hyn fod yn wahanol i'r pris a ddefnyddir ar gyfer prynu a gwerthu unedau.

## 3. Ysgrifenyddiaeth

Mae'r gost o ddarparu staff ar gyfer ysgrifenyddiaeth y Cynllun yn parhau i gael ei dalu'n uniongyrchol gan Gomisiwn y Senedd o dan amodau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y cytunodd y Comisiwn a'r Ymddiriedolwyr arno. Amcangyfrifir mai £142,184 (2023-24 £133,808) oedd y gost ar gyfer cyfnod y cyfrifon hyn.

## 4. Cyfraniadau derbyniadwy

| | 2024-25 £ | 2023-24 £ |
|---|---:|---:|
| Cyfraniadau'r cyflogwr: | | |
| Normal | 923,971 | 982,055 |
| Ôl-ddyledion cyfraniadau'r cyflogwr | | 89,204 |
| Cyfraniadau'r cyflogai: | | |
| Normal | 533,636 | 517,556 |
| **Cyfanswm** | **1,457,607** | **1,588,815** |

Cyfrannodd aelodau o'r adran cyflog terfynol 10% i gronni buddion ar sail un rhan o 40, a 6% i gronni buddion ar sail un rhan o 50 hyd at 6 Mai 2021. Ers 7 neu 8 Mai 2021, mae pob Aelod yn yr adran CARE ac wedi cyfrannu 10.5% i gronni buddion ar sail cyfartaledd gyrfa un rhan o 50. O 1 Ebrill 2024 ymlaen, yn dilyn prisiad 2023, mae Comisiwn y Senedd yn cyfrannu 18% o gyflogau pensiynadwy i'r Cynllun.

## 5. Buddion sy'n daladwy

| | 2024-25<br>£ | 2023-24<br>£ |
|---|---|---|
| Pensiynau | 1,308,554 | 1,210,896 |
| Buddion mewn Cyfandaliad | 0 | 304,025 |
| Trethiant lle mae lwfans swm cyfan neu lwfansau blynyddol yn fwy na[1] | 6,490 | 4,875 |
| **Cyfanswm** | **1,315,044** | **1,519,796** |

[1]Mae'r dreth ar fudd-daliadau a dalwyd neu a ddaw'n daladwy yn digwydd yn achos Aelodau yr oedd eu buddion yn fwy na'r lwfans oes neu'r lwfans blynyddol, ac a ddewisodd gael buddion is o'r Cynllun yn gyfnewid am fod y Cynllun yn setlo eu rhwymedigaethau treth.

## 6. Asedau cyfredol

| | 31 Mawrth 2025<br>£ | 31 Mawrth 2024<br>£ |
|---|---|---|
| Arian parod yn y banc | 48,640 | 146,925 |
| Dyledwyr eraill a rhagdaliadau | 371 | 428 |
| **Cyfanswm** | **49,011** | **147,353** |

## 7. Rhwymedigaethau cyfredol

| | 31 Mawrth 2025<br>£ | 31 Mawrth 2024<br>£ |
|---|---|---|
| Credydwyr: symiau'n daladwy cyn pen blwyddyn | (66,097) | (54,812) |
| **Cyfanswm** | **(66,097)** | **(54,812)** |

Mae 'credydwyr: symiau'n daladwy cyn pen blwyddyn' yn cynrychioli rhwymedigaethau am waith a wnaed p'un a dderbyniwyd yr anfonebau neu beidio erbyn diwedd y flwyddyn, a rhwymedigaethau dyledus sydd heb eu talu.

## 8. Costau gweinyddol

| | 2024-2025<br>£ | 2023-2024<br>£ |
|---|---|---|
| Hyfforddiant | 13,417 | 3,443 |
| Costau gweinyddol eraill | 954 | 635 |
| **Cyfanswm** | **14,371** | **4,078** |

## 9. Cyfryngau buddsoddi cronedig

| | 31 Mawrth 2025<br>£ | 31 Mawrth 2024<br>£ |
|---|---|---|
| Cronfa BNYM Mellon Real Return (Responsible) (a elwid gynt yn Gronfa Sustainable Real Return) | 6,609,509 | 13,481,310 |
| Cronfa Generations Partners Group | 5,585,883 | 5,177,018 |
| Mynegai L&G FTSE4Good Developed Equity | 0 | 8,447,087 |
| Mynegai L&G FTSE4Good Developed Equity wedi'i ragfantoli ar GBP | 0 | 8,444,132 |
| Cronfa L&G Managed Property | 2,614,518 | 2,056,335 |
| Cronfa L&G Over 5 Year Index-Linked Gilts Index | 0 | 2,770,125 |
| Cronfa Baillie Gifford Defensive Growth (a elwid gynt yn Gronfa Sustainable Multi Asset Growth) | 4,927,416 | 6,617,480 |
| Cronfa L&G Cash | 0 | 18 |
| Cronfa Insight Responsible Horizons Multi-Sector Credit | 4,930,420 | |
| Cronfa M&G Sustainable Total Return Credit Investment | 4,936,121 | |
| Cronfa Gyson M&G Global Sustainable Paris | 9,574,709 | |
| Cronfa L&G FTSE TPI Global Fossil Fuel Exclusions Equity Index - wedi'i rhagfantoli ar GBP | 9,255,750 | |
| **Cyfanswm** | **48,434,326** | **46,993,505** |

## 10. Ffioedd proffesiynol

| | 2024-25<br>£ | 2023-24<br>£ |
|---|---|---|
| Ffioedd actiwaraidd | 34,215 | 110,895 |
| Ymddiriedolwr annibynnol | 23,432 | 14,317 |
| Ymgynghoriaeth fuddsoddi | 45,519 | 31,934 |
| Ffioedd archwilio | 27,277[1] | 17,532 |

| | 2024-25<br>£ | 2023-24<br>£ |
|---|---|---|
| Ffioedd cyfreithiol | 18,000 | 9,376 |
| **Cyfanswm** | **148,443** | **184,054** |

Mae'r gostyngiad mewn ffioedd actiwaraidd i'w briodoli i'r gwaith ar brisiad actiwaraidd 2023 a gafodd ei gwblhau y llynedd. Mae'r cynnydd mewn ffioedd cynghorwyr buddsoddi yn 2024-2025 oherwydd gwaith ar adolygu'r strategaeth fuddsoddi yn dilyn y prisiad. Mae ffioedd cyfreithiol wedi cynyddu oherwydd yr adolygiad o bolisïau a'r ateb i'r broblem gyda McCloud.

Mae'r cynnydd yn y ffi ar gyfer yr Ymddiriedolwr Annibynnol yn adlewyrchu penodiad cwmni Ymddiriedolwyr annibynnol a gwaith ychwanegol a wnaed ar y strategaeth fuddsoddi.

[1]Cynyddodd y ffi archwilio oherwydd adolygiad o'r ffioedd gan Archwilio Cymru. Roedd hyn yn golygu, yn ogystal â'r ffi archwilio o £17,532 a nodir yng nghyfrifon 2023-24, talwyd ffi archwilio ychwanegol yn 2024-25 mewn cysylltiad ag archwiliad 2023-24. Dangosir hyn yn ogystal â'r ffi archwilio wirioneddol ar gyfer 2024-25, sef £22,356.

## 11. Cysoni buddsoddiadau

| Cronfa | Gwerth ar y farchnad ar 1 Ebrill 2024 (£) | Pryniannau (£) | Gwaredu a gwerthiannau (£) | Newid yn y gwerth ar y farchnad (£) | Treuliau Rheolwyr Buddsoddi (£) | Newid net yn y gwerth ar y farchnad (£) | Gwerth ar y farchnad ar 31 Mawrth 2025 (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Baillie Gifford Defensive Growth** (a elwid gynt yn Sustainable Multi Asset) | 6,617,480 | | (2,052,252) | 399,787 | (37,599) | 362,188 | 4,927,416 |
| **BNY Mellon Real Return (Responsible)** (a elwid gynt yn Sustainable Real Return) | 13,481,310 | | (7,004,059) | 240,704 | (108,446) | 132,258 | 6,609,509 |
| **Partners Group Generations** | 5,177,018 | | | 489,095 | (80,230) | 408,865 | 5,585,883 |
| **Mynegai L&G FTSE4Good Developed Equity** (a elwid gynt yn Fynegai L&G Ethical Global Equity) | 8,447,087 | | (8,824,407) | 406,926 | (29,607) | 377,320 | -- |
| **Mynegai FTSE4Good hedged Developed Equity** (a elwid gynt yn Fynegai L&G Ethical Global Equity) | 8,444,132 | | (9,048,425) | 636,413 | (32,120) | 604,293 | -- |
| **L&G Managed Property** | 2,056,335 | 422,377 | | 168,295 | (32,489) | 135,806 | 2,614,518 |
| **Mynegai L&G Over 5 Year Index-Linked Gilts** | 2,770,125 | | (2,510,453) | (257,450) | (2,222) | (259,672) | -- |
| **Insight Responsible Horizons Multi-Sector Credit** | -- | 4,937,422 | | (5,729) | (1,273) | (7,002) | 4,930,420 |
| **M&G Sustainable Total Return Credit Investment** | -- | 4,937,422 | | (165) | (1,136) | (1,301) | 4,936,121 |

| Cronfa | Gwerth ar y farchnad ar 1 Ebrill 2024 (£) | Pryniannau (£) | Gwaredu a gwerthiannau (£) | Newid yn y gwerth ar y farchnad (£) | Treuliau Rheolwyr Buddsoddi (£) | Newid net yn y gwerth ar y farchnad (£) | Gwerth ar y farchnad ar 31 Mawrth 2025 (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **M&G Global Sustainable Paris Aligned** | - | 9,874,845 | | (296,487) | (3,649) | (300,136) | 9,574,709 |
| **Mynegai L&G FTSE TPI Global Fossil Fuel Exclusions Equity- wedi'i ragfantoli ar GBP** | -- | 9,362,064 | | (105,390) | (924) | (106,314) | 9,255,750 |
| **L&G Cash** | 18 | 110,000 | (114,535) | 4,609 | (92) | 4,517 | 0 |
| **Ffi Gweinyddu'r Polisi** | n/a | | | | (2,999) | | |
| **Asedau Buddsoddi Net** | **46,993,505** | **29,644,130** | **(29,554,131)** | **1,683,610** | **(332,788)** | **1,350,823** | **48,434,326** |

| Cronfa | Gwerth ar y farchnad ar 1 Ebrill 2023 (£) | Pryniannau (£) | Gwarediadau a gwerthiannau (£) | Newid yn y gwerth ar y farchnad (£) | Treuliau Rheolwyr Buddsoddi (£) | Newid net yn y gwerth ar y farchnad (£) | Gwerth ar y farchnad ar 31 Mawrth 2024 (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Baillie Gifford Defensive Growth** (a elwid gynt yn Sustainable Multi Asset) | 6,301,969 | -- | -- | 340,864 | (35,970) | 315,511 | 6,617,480 |
| **BNY Mellon Real Return (Responsible)** (a elwid gynt yn Sustainable Real Return) | 12,743,443 | 60,000 | | 766,676 | (114,499) | 677,867 | 13,481,310 |
| **Partners Group Generations** | 4,847,038 | -- | -- | 396,183 | (104,888) | 329,980 | 5,177,018 |
| **L&G FTSE4Good** (a elwid gynt yn Fynegai L&G Ethical Global Equity) | 7,162,930 | -- | (265,000) | 1,575,475 | (26,318) | 1,549,157 | 8,447,087 |
| **L&G FTSE4Good wedi'i ragfantoli** (a elwid gynt yn Fynegai L&G Ethical Global Equity) | 6,715,391 | -- | -- | 1,756,162 | (27,421) | 1,728,741 | 8,444,132 |
| **L&G Managed Property** | 2,049,004 | -- | -- | 20,242 | (28,008) | 7,331 | 2,056,335 |
| **Mynegai L&G Over 5 Year Index-Linked Gilts** | 2,975,633 | -- | -- | (203,165) | (2,343) | (205,508) | 2,770,125 |
| **L&G Cash** | 0 | 30,000 | (30,000) | 18 | 0 | 18 | 18 |
| **Ffi Gweinyddu'r Polisi** | dd/B | dd/B | dd/B | 1,216 | (1,216) | dd/B | dd/B |
| **Asedau Buddsoddi Net** | **42,795,408** | **90,000** | **(295,000)** | **4,653,671** | **(340,663)** | **4,403,097** | **46,993,505** |

## 12. Treuliau'r Rheolwyr Buddsoddi

| Cronfa | Rheoli buddsoddiadau | | Treuliau eraill | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2024-25 £ | 2023-24 £ | 2024-25 £ | 2023-24 £ | 2024-25 £ | 2023-24 £ |
| **Baillie Gifford Defensive Growth** (a elwid gynt yn Gronfa Sustainable Multi Asset) | (23,854) | (22,184) | (13,745) | (13,786) | (37,599) | (35,969) |
| **BNY Mellon Real Return (Responsible)** (a elwid gynt yn Sustainable Real Return) | (87,025) | (82,465) | (21,421) | (32,034) | (108,646) | (114,499) |
| **Partners Group Generations** | (62,037) | (62,456) | (18,193) | (42,432) | (80,230) | (104,888) |
| **L&G FTSE4Good (wedi'i ragfantoli)** (a elwid gynt yn Fynegai L&G Ethical Global Equity) | (27,837) | (23,765) | (4,283) | (3,656) | (32,120) | (27,421) |
| **L&G FTSE4Good (heb ei ragfantoli)** (a elwid gynt yn Fynegai L&G Ethical Global Equity) | (25,378) | (22,558) | (4,230) | (3,760) | (29,607) | (26,318) |
| **L&G Managed Property** | (12,560) | (11,918) | (19,929) | (16,090) | (32,489) | (28,008) |
| **Mynegai L&G Over 5 Year Index-Linked Gilts** | (952) | (1,004) | (1,270) | (1,339) | (2,222) | (2,343) |
| **L&G Cash** | (46) | -- | (46) | -- | (92) | -- |
| **Insight Responsible Horizons Multi-Sector Credit** | (865) | -- | (408) | -- | (1,273) | |
| **M&G Sustainable Total Return Credit Investment** | (994) | -- | (142) | -- | (1,136) | |

| Cronfa | Rheoli buddsoddiadau | | Treuliau eraill | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **M&G Global Sustainable Paris Aligned** | (3,368) | -- | (281) | -- | (3,649) | |
| **Mynegai L&G FTSE TPI Global Fossil Fuel Exclusions Equity - wedi'i ragfantoli ar GBP** | (660) | -- | (264) | -- | (924) | |
| **Ffi Gweinyddu Polisi** | | | (2,999) | (1,216) | (2,999) | (1,216) |
| **Cyfanswm** | **(245,576)** | **(226,350)** | **(87,209)** | **(114,313)** | **(332,788)** | **(340,663)** |

Mae 'treuliau eraill' y gronfa L&G Managed Property yn cynnwys taliadau Rheoli Eiddo ac eitemau 'na ellir eu hadennill' fel ffioedd syrfëwr trydydd parti. Mae Mobius Life yn codi ffi gweinyddu polisi o 1 Tachwedd 2023 a ffi platfform ar gyfer cynnal cronfeydd ar y platfform. Nodir y costau hyn yn "treuliau eraill" uchod.

## 13. Risgiau buddsoddi

Mae amrywiaeth o risgiau'n gysylltiedig â buddsoddiadau mewn cynllun pensiwn. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn ystyried y prif risgiau a ganlyn yn barhaus:

**Risg llif arian** – sef risg o ddiffyg o ran asedau hylifol o'i gymharu â rhwymedigaethau uniongyrchol. Yn y byrdymor mae'r Cynllun yn niwtral ar y cyfan o ran llif arian. Fodd bynnag, bydd yr Ymddiriedolwyr yn monitro'r risg hwn dros gyfnod ac yn addasu'r strategaeth fuddsoddi yn ôl y gofyn, er mwyn sicrhau bod digon o hylifedd. Mae'r Cynllun yn cadw'r defnydd o Gronfa Arian Parod wrth gefn

**Risg o gamgymharu** - sef risg y bydd gwerthoedd asedau a rhwymedigaethau yn newid mewn ffyrdd sy'n wahanol iawn. Mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol bod buddsoddi'n sylweddol mewn asedau twf yn creu risg o gamgymharu, gan fod cyfradd ddisgownt y Cynllun yn seiliedig ar elw uwchlaw chwyddiant, ond byddant am arallgyfeirio'r asedau twf i leihau risg yr anfantais. Asesir y risg hwn yn ystod pob prisiad actiwaraidd.

**Risg rheolwr** – sef risg na fydd y rheolwyr buddsoddi yn sicrhau'r adenillion a ddisgwylir gan yr Ymddiriedolwyr. Bydd y risg yn cael ei fonitro gan yr Ymddiriedolwyr, a fydd yn adolygu perfformiad y rheolwr yn erbyn ei feincnod a'i gymheiriaid yn rheolaidd. Bydd tanberfformio am gyfnod estynedig fel arfer yn arwain at adolygiad o'r mandad buddsoddi.

**Risg crynhoi** – sef risg bod cyfran fawr o asedau'r Cynllun yn cael eu buddsoddi mewn un dosbarth o asedau neu fuddsoddiad. Mae'r Cynllun mewn perygl os yw'r dosbarth neu'r buddsoddiad hwnnw'n tanberfformio neu'n methu. Mae'r Ymddiriedolwyr yn lleihau'r risg hwn drwy fabwysiadu strategaeth sy'n golygu buddsoddi mewn ystod o wahanol ddosbarthiadau o asedau.

**Risg o siociau yn y farchnad** – sef risg y bydd sioc eithafol i'r farchnad yn arwain at ostyngiad yng ngwerth asedau'r Cynllun. Mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu perfformiad y Cynllun yn barhaus ac wedi ychwanegu hyn fel risg yn eu cofrestr risg, sy'n cael ei hadolygu ym mhob cyfarfod. Mae'r Ymddiriedolwyr yn lleihau'r risg hon drwy amrywio eu hasedau a monitro'r strategaeth fuddsoddi yn rheolaidd.

**Risg o ran credyd** – sef risg y bydd parti i gontract yn methu â thalu neu'n methu â chyflawni ei ymrwymiadau i'r Cynllun. Mae'r Ymddiriedolwyr yn lleihau'r risg hwn drwy fuddsoddi mewn cronfeydd sy'n diogelu asedau buddsoddwyr, a thrwy gadw adneuon arian parod gyda banciau cydnabyddedig yn unig, a banciau a awdurdodwyd i gynnal busnes bancio yn y Deyrnas Unedig.

**Risg arian cyfred** - sef risg y bydd gwerth teg neu lif arian parod ased ariannol yn y dyfodol yn amrywio oherwydd newidiadau mewn cyfraddau cyfnewid tramor. Mae'r Cynllun yn defnyddio rhai asedau sterling, cronfeydd wedi'u gwarchod gan arian cyfred a dulliau gweithredol o reoli arian cyfred o fewn cronfeydd ar gyfer y rhan fwyaf o'i asedau a fuddsoddir.

**Risg chwyddiant** - sef risg y bydd gwerth teg neu lif arian parod ased ariannol yn y dyfodol yn amrywio oherwydd newidiadau mewn chwyddiant. Disgwylir i asedau'r Cynllun sy'n ceisio adenillion sicrhau adenillion sy'n fwy na chwyddiant (h.y. adenillion real cadarnhaol) dros y tymor hwy ac ar unrhyw adeg gall fod yn agored i asedau sy'n gysylltiedig â chwyddiant.

**Ystyriaethau ariannol perthnasol eraill** - sef risg y gall ystyriaethau ariannol perthnasol (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (gan gynnwys newid hinsawdd)) effeithio ar y Cynllun o ran risg ac adenillion. O ystyried ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn benodol, mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried sut y mae'r ffactorau hyn yn cael eu hintegreiddio â'r prosesau buddsoddi wrth: (i) benodi rheolwyr buddsoddi newydd; a (ii) monitro'r rheolwyr buddsoddi presennol. At hynny, mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried o bryd i'w gilydd gyhoeddiadau sy'n gysylltiedig â materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu sydd ar gael yn gyhoeddus ac yn ymwneud â'r rheolwyr buddsoddi presennol. At hynny, mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu cymwysterau eu rheolwyr o ran ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu drwy adroddiad blynyddol, ac yn holi ei gynghorwyr ynghylch ymagwedd y rheolwyr at y materion hyn yng nghyfarfodydd yr Ymddiriedolwyr.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod y mathau gwahanol hyn o risg ac yn ceisio eu lleihau cyn belled â phosibl drwy fonitro perfformiad buddsoddiadau'n rheolaidd, drwy bolisi arallgyfeirio, drwy ystyried taliadau yn y dyfodol a thrwy adolygu priodoldeb y strategaeth fuddsoddi yn erbyn amcanion y Cynllun yn rheolaidd.

Caiff buddsoddiadau'r Cynllun eu rheoli i sicrhau bod y risgiau hyn yn cael eu cadw ar lefel sy'n dderbyniol i'r Ymddiriedolwyr. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol bod strategaeth fuddsoddi sy'n osgoi risg yn gyfan gwbl yn debygol o gynhyrchu llai o adenillion dros y tymor hwy na buddsoddiadau gydag elfen o ansicrwydd ynghylch yr adenillion. Mae'r Cynllun yn cael ei ariannu gan ddefnyddio arian cyhoeddus, ac felly mae'r Ymddiriedolwyr yn awyddus i ddarparu buddion heb i'r pris fod yn afresymol.

Wrth ystyried risg, bydd yr Ymddiriedolwyr yn ystyried cyngor eu cynghorwyr proffesiynol a'r consensws cyffredinol o ran arfer dderbyniol wrth ymdrin â

Chynlluniau pensiwn galwedigaethol yn y Deyrnas Unedig. Ni fydd hyn yn atal yr Ymddiriedolwyr rhag derbyn risg yn eu strategaeth fuddsoddi pan fyddant o'r farn y bydd yn cynhyrchu elw da i'r Cynllun.

## 14. Trafodion partïon cysylltiedig

Yn ystod cyfnod y cyfrif mae'r Cynllun wedi cael trafodion perthnasol â Chomisiwn y Senedd, a ystyrir yn barti cysylltiedig. Datgelir y trafodion hyn yn Nodyn 3 i'r cyfrifon hyn. Nid oes yr un o'r Ymddiriedolwyr, Rheolwyr y Cynllun, staff rheoli allweddol na phartïon cysylltiedig eraill wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion perthnasol â'r Cynllun yn ystod y flwyddyn.

# Datganiad yr Archwilydd Annibynnol am Gyfraniadau i Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd

Rwyf wedi archwilio'r crynodeb o'r cyfraniadau i Gynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025, a nodir ar dudalen 29.

Yn fy marn i mae cyfraniadau i'r cynllun yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024, fel y nodwyd yn y crynodeb o gyfraniadau, ac a oedd yn daladwy o dan y rhestr o gyfraniadau, wedi'u talu, ym mhob ffordd berthnasol, yn unol, o leiaf, â'r rhestr o gyfraniadau a ardystiwyd gan Actwari'r Cynllun ar 11 Gorffennaf 2025.

## Cwmpas y gwaith ar y datganiad am gyfraniadau

Mae fy archwiliad yn ymwneud â chael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol fod y cyfraniadau a nodir yn y crynodeb o gyfraniadau ar dudalen 29 wedi cael eu talu ym mhob ffordd berthnasol, yn unol â'r rhestr o gyfraniadau o leiaf. Mae hyn yn cynnwys archwilio, ar sail profion, y dystiolaeth a oedd yn gysylltiedig â swm y cyfraniadau a oedd yn daladwy i'r cynllun a phryd y gwnaed y taliadau hynny, o dan y rhestr o gyfraniadau.

## Cyfrifoldebau arbennig yr Ymddiriedolwyr a'r Archwilwyr

Fel y disgrifir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr ar dudalen 28, ymddiriedolwyr y cynllun sy'n gyfrifol am baratoi'r rhestr o gyfraniadau, eu hadolygu o bryd i'w gilydd a'u diwygio os bydd angen. Maent hefyd yn gyfrifol am fonitro a yw cyfraniadau'n cael eu gwneud i'r cynllun gan y cyflogwr yn unol â'r rhestr o gyfraniadau.

Fy nghyfrifoldeb i yw paratoi datganiad am gyfraniadau a dalwyd o dan y rhestr o gyfraniadau a rhoi fy marn i chi.

Llofnod

**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru
14 Gorffennaf 20254

1 Capital Quarter
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Mae'r fersiwn hon yn gyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol. Cynllun Pensiwn Aelodau o Senedd Cymru sy'n gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

# Datganiad yr Actiwari - yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2025

Mae Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd wedi'i eithrio o'r gofyniad a nodir yn Rheoliadau Cynlluniau Pensiynau Galwedigaethol (Datgelu Gwybodaeth) 1996 i baratoi adroddiad a chyfrifon archwiliedig cyn pen saith mis ar ôl diwedd y flwyddyn gyfrifyddu. Fodd bynnag, bwriad yr Ymddiriedolwyr yw cydymffurfio ag ethos y ddeddfwriaeth, ac yn hynny o beth, mae'r datganiad hwn wedi'i baratoi yn yr un modd â phe bai'r ddeddfwriaeth yn cael ei gweithredu.

## Asesiad actiwaraidd

Cynhaliwyd asesiad actiwaraidd ffurfiol o Gynllun Pensiwn Aelodau o Senedd Cymru (y Cynllun) gyda dyddiad dod i rym ar 31 Mawrth 2023 a darperir y canlyniadau yn yr adroddiad dyddiedig 2 Chwefror 2024. Prif amcan yr asesiad actiwaraidd ffurfiol yw gwneud argymhelliad i Ymddiriedolwyr y Cynllun ynghylch lefel briodol cyfradd cyfraniad y cyflogwr ar ôl y dyddiad hwnnw. Er bod swm cyfraniadau Aelodau wedi'i bennu yn y Rheolau, mae cyfradd cyfraniad y cyflogwr yn cael ei bennu fel canran y cyflog sydd ei hangen i dalu balans y gost gyda'r bwriad o sicrhau y telir am fuddion y Cynllun yn ystod gwasanaeth gweithredol disgwyliedig yr aelodau â'r Senedd.

## Y dull

Ar gyfer prisiad actiwaraidd 2023, cafodd y rhwymedigaethau y disgwyliwyd iddynt gronni o dan y Cynllun yn ystod y flwyddyn yn dilyn y dyddiad prisio eu prisio gan ddefnyddio'r dull prisiad actiwaraidd sef y *Dull Rhagamcanu Unedau*. Mynegir *Cyfradd Cyfraniadau Safonol* y Dull Rhagamcanu Unedau fel gwerth y buddion a gronnir yn ystod y cyfnod rheoli wedi'i rannu â gwerth presennol enillion Aelodau yn ystod y cyfnod hwn. Disgwylir i'r dull prisio hwn ddarparu Cyfradd Cyfraniadau Safonol lled sefydlog ar gyfer prisiadau actiwaraidd olynol cyhyd ag y bo'r dosbarthiad o aelodau'r Cynllun o ran oedran/rhywedd/cyflog a'r tybiaethau a gaiff eu mabwysiadu yn aros yn lled gyson.

Yna cymharwyd gwerth y rhwymedigaethau a gronnwyd hyd at y dyddiad prisio â gwerth asedau'r Cynllun ar yr un dyddiad. Dangosodd y prisiad warged o £2.8 miliwn. Yn dilyn trafodaethau gyda'r Ymddiriedolwyr a'r Comisiwn, cytunwyd y byddai cyfradd cyfraniadau'r Comisiwn yn gostwng i 18% o'r gyflogres y flwyddyn, gan adlewyrchu'r ffaith nad oes gan y Cynllun bellach ddiffyg ar ôl diweddaru ar gyfer amodau'r farchnad a data.

## Rhagdybiaethau

Er mwyn cyfrifo cost buddion y Cynllun, rhaid gwneud rhai tybiaethau actiwaraidd o ran incwm disgwyliedig y Cynllun yn y dyfodol a'r buddion a delir ganddo. Mae'r Gyfradd Cyfraniadau Safonol yn golygu y byddai'n ddigonol i gyllido'r buddion a gronnir ar ôl y dyddiad prisio os yw'r profiad yn unol â'r tybiaethau a wnaethpwyd. Efallai y bydd angen addasu'r gyfradd cyfraniadau yn y dyfodol i ystyried unrhyw wahaniaeth rhwng profiadau'r Cynllun a'r tybiaethau cyllid.

Dangosir y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd ym mhrisiad actiwaraidd 2023 i gyfrifo cost buddion y Cynllun yn y tabl isod.

| | |
|---|---|
| Adenillion buddsoddi, net o dreuliau, yn fwy na chwyddiant cyflogau hirdymor | 1½% y flwyddyn |
| Adenillion buddsoddi, net o dreuliau, yn fwy na chwyddiant pris (yn seiliedig ar y Mynegai Prisiau Defnyddwyr) | 3% y flwyddyn |
| Hirhoedledd pensiynwyr – Yn seiliedig ar dablau marwolaethau S3 o'r SAPS a gyhoeddwyd gan Ganolfan yr Ymchwiliad Parhaus i Farwolaethau yn seiliedig ar brofiad pensiynwyr mewn cynlluniau pensiwn galwedigaethol yn y DU. Ar gyfer menywod, defnyddiwyd y tabl canol, sy'n seiliedig ar y data gyda'r symiau pensiwn uchaf ac isaf wedi'u dileu. Mae ffactor graddio o 85% wedi'i ddefnyddio gyda'r tablau hyn (ac eithrio dibynyddion benywaidd, sy'n 100%). Pennir gwelliannau yn y dyfodol yn unol â'r prif amcanestyniadau poblogaeth yn seiliedig ar 2020 a luniwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS 2020). | |

Mae manylion pellach am y dulliau a'r tybiaethau a ddefnyddiwyd, gan gynnwys manylion i ba raddau y mae'r pandemig COVID-19 wedi cael ei ystyried, wedi'u nodi yn y prisiad actiwaraidd fel ar 2 Chwefror 2022.

## Cyfradd cyfraniadau

Cyflwynodd Bwrdd Taliadau'r Senedd strwythur buddion newydd a ddaeth i rym ar 6 Mai 2016. Mae Aelodau a oedd yn 55 oed neu'n hŷn ar 1 Ebrill 2012 yn cael eu diogelu ac wedi parhau i gronni buddion ar y strwythur buddion blaenorol hyd at 5 Mai 2021, ac fe dalwyd cyfraniadau o 10% neu 6% o'r cyflog pensiynadwy. Mae pob Aelod bellach yn yr adran CARE ac yn talu cyfraniadau i'r Cynllun ar gyfradd o 10.5% o'r cyflog pensiynadwy.

Cyflwynwyd diogelwch trosiannol tebyg ar draws y sector cyhoeddus pan ddiwygiwyd y cynlluniau yn 2015. Heriwyd y diogelwch trosiannol yn y llysoedd gan aelodau o'r cynlluniau ar gyfer diffoddwyr tân a barnwyr, a chanfuwyd eu bod yn gwahaniaethu ar sail oedran. Hwn yw dyfarniad McCloud, fel y'i gelwir. Cytunwyd y bydd Aelodau cymwys y Cynllun yn derbyn rhwymedi mewn perthynas â dyfarniad McCloud a gwnaed cronfa wrth gefn ar gyfer y gost hon yn rhwymedigaethau prisio 2023. Felly, caniateir ar gyfer costau amcangyfrifedig rhwymedi McCloud yn y rhwymedigaethau a nodir yn adroddiad prisio 2023.

Ar ôl i brisiad 2023 gael ei gwblhau, gostyngwyd cyfradd cyfraniadau Comisiwn y Senedd i 18.0% o'r cyflog pensiynadwy. Mae'r gyfradd hon yn seiliedig ar y tybiaethau a fabwysiadwyd ar gyfer prisiad 2023; mae'n cynnwys lwfans o 1% am dreuliau.

## Diogelwch yr hawliau arfaethedig

Yn fy marn i, mae adnoddau'r Cynllun yn debygol, o dan amgylchiadau arferol, o gwrdd â rhwymedigaethau llawn y Cynllun wrth iddynt ddod yn ddyledus, ac eithrio unrhyw gostau a all godi yn sgil cydraddoli GMP. Wrth fynegi'r farn hon, rwyf wedi cymryd yn ganiataol y bydd cyfraniadau'r cyflogwr a'r Aelodau'n cael eu talu i'r Cynllun fel y disgrifir yn y paragraff 'Cyfradd cyfraniadau' uchod ac y byddant yn destun adolygiad yn ystod yr asesiadau actiwaraidd nesaf.

## Yr asesiad actiwaraidd nesaf

Cafwyd diweddariad cyllid blynyddol bras ar gyfer y Cynllun ar 31 Mawrth 2024. Roedd y diweddariad bras hwn yn seiliedig ar ddata aelodaeth, dull a thybiaethau o brisiad 2023, ond cawsant eu diweddaru i adlewyrchu amodau'r farchnad ar 31 Mawrth 2024. Dangosodd y diweddariad bras welliant yn sefyllfa ariannu'r cynllun ers prisiad 2023, a'r prif reswm am hyn oedd enillion asedau gwell na'r disgwyl ers y prisiad actiwaraidd a chynnydd yn yr enillion asedau disgwyliedig yn y dyfodol.

Dyddiad gweithredol prisiad ffurfiol nesaf y Cynllun gan yr actwari yw 31 Mawrth 2026. Prif ddiben y prisiad hwnnw yw asesu sefyllfa ariannol y cynllun ac a yw cyfradd cyfraniadau'r cyflogwr a argymhellwyd yn ddigonol, gan ystyried yr holl ffactorau perthnasol ers y prisiad blaenorol.

**Memet Pekacar**
Actwari Siartredig (Cymrawd)
13 Mai 2024

**Government Actuary's Department**
6th Floor
10 South Colonnade, London E14 4PU




EVERYMAN
EVERYMAN



Senedd Cymru
Welsh Parliament

www.senedd.cymru | www.senedd.wales